## Coladu Canfyddiadau'r Ymgysylltiad a Gynhaliwyd â Merthyr Tudful yn Benodol:

Gan adeiladu ar yr ymgysylltiad a gynhaliwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Cwm Taf Morgannwg wrth baratoi ar gyfer Asesu Llesiant, a'r Asesiad Anghenion Poblogaeth a luniwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg (BPRh), cytunwyd y dylid cynnal ymgysylltiad ychwanegol i sicrhau bod llais y bobl leol yn cael ei glywed a bod negeseuon allweddol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu amcanion llesiant corfforaethol CBS Merthyr Tudful.

Ar ôl datblygu Holiadur Ymgysylltu, cyflwynwyd yr Arolwg Ymgysylltu Lleol yn ystod wythnos gyntaf mis Hydref 2022 a daeth i ben yn ystod wythnos olaf Tachwedd 2022. Gofynnwyd 3 chwestiwn allweddol yn yr Arolwg:

1. Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am Ferthyr Tudful?
2. Beth fyddech chi'n ei newid am Ferthyr Tudful?
3. Beth sydd angen i Arweinwyr ei glywed?

Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried y cwestiynau a chynnig rhywfaint o fanylion yn yr ymatebion. Mae'r ddogfen hon yn cynnig trosolwg thematig o'r ymatebion a dderbyniwyd gan y Cyngor a'r themâu allweddol sy'n deillio o ddadansoddi'r data a'r wybodaeth a gasglwyd. Mae'n bwysig nodi bod rhai ymatebion a dderbyniwyd wedi'u dosbarthu fel rhai "rhannol" (h.y. ni chafodd pob cwestiwn a ofynnwyd ei ateb). Ystyriwyd yr ymatebion i'r rhain hefyd er mwyn galluogi'r Cyngor i gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl oddi wrthynt.

## Ein Canfyddiadau: Y Rhifau

Cyfanswm y bobl a ymatebodd i'r Arolwg

**1,004**

Canran yr ymatebwyr a atebodd bob cwestiwn

**64%** (643/1004)

Canran yr ymatebwyr a gyflwynodd ymatebion "rhannol"

**36%** (361/1004)

Dadansoddiad o oedran yr ymatebwyr (yn ôl nifer):

| | 0-15 | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75-84 | 85-94 | 95+ | Oed heb ei nodi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bedlinog | 4 | 0 | 7 | 7 | 6 | 4 | 6 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfarthfa | 2 | 0 | **15** | 24 | 13 | 7 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Dowlais | **8** | 4 | 8 | 17 | 7 | 11 | 5 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Gurnos | 2 | **9** | 12 | 12 | 6 | 10 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynysowen | 3 | 2 | 6 | 6 | 10 | 7 | 5 | 0 | 0 | 0 | **1** |
| Y Parc | 3 | 2 | 2 | 10 | **20** | 10 | 3 | 2 | 0 | 0 | **1** |
| Penydarren | 2 | 0 | **15** | 24 | 13 | 7 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Plymouth | 5 | 2 | 9 | 17 | 9 | 7 | 4 | 0 | **2** | 0 | 0 |
| Y Dref | 5 | 3 | 9 | **29** | 18 | **24** | **11** | 4 | **2** | 0 | 0 |
| Treharris | 3 | 2 | 5 | 10 | 13 | 4 | 8 | **6** | 0 | 0 | 0 |
| Faenor | 3 | 2 | 4 | 7 | 10 | 11 | 4 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Nifer** | **40** | **26** | **92** | **163** | **125** | **102** | **66** | **22** | **5** | **0** | **2** |
| **Canran** | **6.22** | **4.04** | **14.30** | **25.34** | **19.44** | **15.86** | **10.26** | **3.42** | **0.77** | **0** | **0.31** |

Cafwyd **643** o ymatebion yn nodi’r wardiau ac fe’u defnyddiwyd fel sail i’r niferoedd/cyfraddau canlynol:

| | Bedlinog | Cyfarthfa | Dowlais | Gurnos | Ynysowen | Y Parc | Penydarren | Plymouth | Y Dref | Treharris | Faenor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 36 | 71 | 63 | 57 | 40 | 53 | 71 | 55 | 105 | 51 | 42 |
| Canran | 5.59% | 11.04% | 9.79% | 8.86% | 6.22% | 8.24% | 11.04% | 8.55% | 16.32% | 7.93% | 6.53% |

Rydyn ni hefyd wedi rhannu’r data a gasglwyd yn ystodau oedran ehangach a fydd yn cynorthwyo gwasanaethau’r Cyngor i ddeall yr adborth sydd wedi’i dargedu’n fanylach. Bydd hynny yn eu cynorthwyo i barhau â’r gwaith o gefnogi’r trigolion a’r cymunedau. Mae ein data yn dangos y cyfraddau bras canlynol mewn perthynas â’r 643 o bobl a ddarparodd eu hystodau oedran:

Plant a Phobl Ifanc 0-24 oed **8%**



Pobl 25-54 oed **59%**



Pobl 55+ oed **33%**




**Nid ydym wedi gallu amlinellu proffiliau oedran y bobl hynny a ymatebodd heb gwblhau adran yr Arolwg Ymgysylltu ar “gydraddoldeb”.**

Mae’r wybodaeth ganlynol yn cynnig dadansoddiad o’r ymatebion fesul ward.

## Ymgysylltu â phobl o: Ward Bedlinog

Wrth ddadansoddi data'r ymatebion, dywedodd **36** o'r ymatebwyr a ddaeth i law eu bod yn byw yn Ward Bedlinog. [1] Wrth ddadansoddi oedran yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr Arolwg o'r Ward hon, canfuwyd y canlynol:




### Sut mae'r gyfradd ymateb hon yn cymharu â'r gyfradd ymateb gyfartalog a gyfrifwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol?

| | 0-15 | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75-84 | 85+ | Gwell ganddynt beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bedlinog | 4 | 0 | 7 | 7 | 6 | 4 | 6 | 1 | 1 | 0 |
| Cyfartaledd a gofnodwyd | 3.72 | 2.9 | 8.18 | 13.63 | 11.63 | 10.09 | 5.9 | 2 | 0.5 | - |

Gan edrych ar y cyfraddau ymateb yn ôl grŵp oedran, gallwn gymharu'r rhain yn erbyn y gyfradd ymateb gyffredinol i nodi unrhyw feysydd y gellid eu datblygu ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu'r dyfodol. Yn seiliedig ar y data a gadarnhawyd ar gyfer **Ward Bedlinog**, nodwyd mai'r gyfradd ymateb ar gyfer ymatebwyr yn yr ystod oedran **0-15 oed** a **65-75 oed** oedd yn cyd-fynd agosaf â chyfartaledd y Sir gyfan, er na chafwyd unrhyw ymatebion gan bobl rhwng **16-24 oed.**

[1] Ni ellir cymhwyso'r nifer hwn yn llawn gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis peidio â nodi ym mha ward yr oeddent yn byw wrth gwblhau eu hymateb.

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Bedlinog eu bod yn hoffi orau am Ferthyr Tudful?

Wrth ddadansoddi’r adborth a gafwyd gan drigolion Ward **Bedlinog**, gellid nodi cwpl o osodiadau allweddol yn eu hadborth a oedd yn dangos yr hyn roeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned. Dyma nhw:



Mynediad da i gyfleusterau megis siopau, cymorth meddygol a gweithgareddau



Ei chefn gwlad a’i hardaloedd gwyrdd, ei mannau agored a’i mynediad i natur




Y bobl a’r ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol



Cyfoeth y dref o ran ei hanes, ei threftadaeth, ei chelfyddydau a’i diwylliant

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Bedlinog yr hoffent ei newid?





| | |
|---|---|
| A | Mwy o barciau, meysydd chwarae a chyfleusterau hamdden i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd (**11.11%**) |
| B | Gwella gwasanaethau hamdden a darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol i bob oed (yn enwedig nofio) (**2.77%**) |
| C | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus (**19.44%**) |
| D | Cefnogi cynaliadwyedd y busnesau lleol, datblygu'r economi leol ac annog mewnfuddsoddiad (**27.77%**) |
| E | Diogelu ein safleoedd treftadaeth (**5.55%**) |
| F | Darparu cyfleoedd i bobl leol gael addysg ac ymgysylltu (**5.55%**) |
| G | Mynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon a chymryd mesurau gorfodi i atal hynny rhag digwydd ac i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol (**5.55%**) |
| H | Y Cyngor yn cyfathrebu'n gliriach ac yn cynnwys pobl yn fwy (**11.11%**) |
| I | Cynyddu gwasanaethau i bobl fregus gan gynnwys pobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl a gofal cymdeithasol (**2.77%**) |
| J | Mynd i’r afael â phroblemau’n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a gyrru’n beryglus (**16.66%**) |
| K | Mynd i'r afael ag effaith newid hinsawdd (**8.33%**) |
| L | Cefnogi pobl i ymdopi â’r argyfwng costau byw (**5.55%**) |
| M | Sicrhau bod cyllidebau a gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ar draws y Fwrdeistref Sirol (**13.88%**) |
| N | Adfywio rhan ddeheuol y Cwm (**5.55%**) |
| O | Mwy o ymgysylltu â rhieni/gofalwyr gan ysgolion (**2.77%**) |

Dyma'r meysydd allweddol oedd trigolion Ward **Bedlinog** am eu newid, ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| **Cefnogi cynaliadwyedd busnesau lleol, datblygu'r economi leol ac annog mewnfuddsoddiad** | **Gwella trafnidiaeth gyhoeddus** |
|---|---|
| • "Denu mwy o fusnesau, siopau dillad, siopau dodrefn, bwytai da (dim rhagor o siopau bwyd brys), gwneud mwy o ddefnydd o'r Redhouse am fiwsig a theatr".<br>• "Mae'r siopau i'w gweld yn cau ar raddfa frawychus. (Mae angen) i bopeth fod yn fwy fforddiadwy i bawb".<br>• "Hoffwn weld mwy o siopau yn y dref er mwyn osgoi'r Parc Manwerthu".<br>• "Stryd fawr well sy'n cefnogi busnesau bach lleol".<br>• "Mae gennym ni amgylchedd hyfryd ond teimlir weithiau fod gwaelod y cwm yn cael ei anghofio. Mae angen mwy o bethau arnom yng ngwaelod y cwm fel cymorth i fusnesau, achos mae hynny wedi bod yn wych". | • "Dewch ag ymwelwyr i mewn ar hyd Taith Taf ac ar drafnidiaeth gyhoeddus gyda gostyngiadau ar wasanaethau fel gwobr am ddefnyddio trafnidiaeth werdd. (Mae angen inni) gynnal trafnidiaeth gyhoeddus ragorol, cael gwared ar fysiau ysgol, a gwella'r gwasanaeth bws fel ei fod yn gydgysylltiedig".<br>• "Argaeledd y gwasanaeth bws i Fedlinog a'r cwm isaf o'i amgylch".<br>• "(Edrychwch ar y) drafnidiaeth gyhoeddus fel y gallwn gyrraedd pen y daith a dychwelyd adref yn ddibynadwy".<br>• "(Mae angen) buddsoddiad enfawr mewn trafnidiaeth i gysylltu cymunedau fel Bedlinog â'r dref".<br>• "Trafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys trenau – mae angen mwy ohonynt ac mae angen gwella'u hamserlennu". |
| **Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, gyrru peryglus ac ati** | |
| • "Ceisiwch wneud rhywbeth am y broblem alcohol a chyffuriau ar y strydoedd".<br>• "Llai o droseddau, llai o gyffuriau".<br>• "Mynd i'r afael â lefelau trosedd".<br>• "Rwy'n meddwl bod angen ail-leoli rhai o'r camerâu cyflymder gan fod tystiolaeth gref o oryrru yn ein hardal. Bydd hyn yn gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel, yn enwedig y cerddwyr ar rannau prysur o'r ffordd".<br>• "Mae yna rai pobl yn hongian o gwmpas y dref - maen nhw'n niwsans llwyr ac yn gofyn yn gyson am arian". | |

## Beth oedd ymatebwyr ym Medlinog yn teimlo bod angen i Arweinwyr ei glywed?




| | |
|---|---|
| A | Cyfathrebu â phreswylwyr (ac nid yn ddigidol yn unig); a gwrando’n fwy astud ar bobl (**27.77%**) |
| B | Sicrhau bod rhan isaf y Cwm yn cael yr un lefel o gymorth â wardiau eraill (**11.11%**) |
| C | Gwella'r gwasanaeth bws (**11.11%**) |
| D | Cadw ein strydoedd a’n palmentydd yn lân ac yn rhydd o sbwriel (**5.55%**) |
| E | Mynd i'r afael â throseddau – ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau a gwerthu i’r rhai dan oed, a dylai plismona fod yn fwy gweladwy (**11.11%**) |
| F | Mae angen i'r Cyngor weithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig (**5.55%**) |
| G | Helpu pobl i leihau eu hôl troed carbon (**2.77%**) |
| H | Moderneiddio a datblygu Canol y Dref trwy fewnfuddsoddi (**13.88%**) |
| I | Darparu cefnogaeth i bobl ynghylch sgiliau a chyflogaeth (**2.77%**) |
| J | Datblygu gweledigaeth hirdymor sy'n canolbwyntio ar ddyfodol y Fwrdeistref Sirol (**2.77%**) |


Dyma’r materion allweddol oedd trigolion Ward **Bedlinog** am eu hamlygu i’r Arweinwyr ynghyd â rhai o sylwadau’r ymatebwyr:

| **Dylai’r Cyngor gyfathrebu â thrigolion (ac nid yn ddigidol yn unig) a gwrando mwy ar bobl** | **Moderneiddio a datblygu Canol y Dref trwy fewnfuddsoddi** |
|---|---|
| • “Cyfathrebwch yn rheolaidd a pheidiwch â dibynnu ar gyfryngau cymdeithasol - dim ond un ymhlith nifer o sianeli ydyw ac mae’n cyrraedd cynulleidfa benodol yn unig. Mae angen inni weiddi am lwyddiant a’i ddathlu, a chael yr holl randdeiliaid i gydweithio ac i ddweud pa mor wych y gall Merthyr fod”.<br>• “Yn bendant, mae angen iddyn nhw wrando yn arbennig arnom ni ar waelod y cwm. Mae angen iddynt hefyd weithredu ar yr hyn a ddywedwyd wrthynt a datblygu ymagwedd ddibynadwy at breswylwyr a helpu gyda phroblemau sy’n parhau heb eu datrys”.<br>• “(Gwrandewch ar) beth mae’r trigolion ei eisiau. Dylech gynnal cymorthfeydd lleol i ofyn beth sy’n bwysig iddyn nhw”. | • “Dylai busnesau bach lleol gael cyfnod di-rent yn y stryd fawr lle mae llawer o’r siopau yn wag ac ar gau. Bydd hynny’n rhoi hwb i nifer y rhai sy’n ymweld â’r dref ar yr un pryd â chefnogi’r busnesau bach!”.<br>• Mae canol tref Merthyr angen buddsoddiad a chyfleusterau hamdden”.<br>• “Mae angen denu mwy o fusnesau, siopau dillad, siopau dodrefn, bwytai da (dim rhagor o siopau bwyd brys), mwy o ddefnydd o’r Redhouse ar gyfer miwsig a theatr”.<br>• “Mae’r siopau i’w gweld yn cau ar raddfa frawychus”. |

# DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL




Dywedodd plant a phobl ifanc (0-24 oed) eu bod am i'r Cyngor:

|  |  |
|---|---|
| Moderneiddio Canol y Dref, dod â mwy o siopau i mewn | Darparu mwy o weithgareddau i blant a phobl ifanc |




Dywedodd pobl o oedran gweithio (25-54 oed) eu bod am i'r Cyngor:

|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| Moderneiddio Canol y Dref a chefnogi/datblygu busnesau lleol | Gwrando ar bobl leol a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt gymryd rhan | Gwella diogelwch cymunedol a chyfleusterau yng Nghanol y Dref, e.e. mynd i'r afael ag YGG, cam-drin cyffuriau | Sicrhau bod rhan ddeheuol y Cwm yn cael mynediad cyfartal at gyllid a gwasanaethau | Gwella'r seilwaith ar gyfer trafnidiaeth bysiau, e.e. gwasanaeth bysiau, trenau |



Dywedodd pobl hŷn (55+ oed) eu bod am i'r Cyngor:


|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| Gwrando ar bobl leol a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt gymryd rhan | Moderneiddio Canol y Dref a chefnogi/datblygu busnesau lleol | Gwella'r seilwaith ar gyfer trafnidiaeth bysiau, e.e. gwasanaeth bysiau, trenau | Diogelu ein hamgylchedd rhag newid yn yr hinsawdd, sbwriel a thipio anghyfreithlon | Sicrhau bod rhan ddeheuol y Cwm yn cael mynediad cyfartal at gyllid a gwasanaethau |

## Ymgysylltu â phobl o: Ward Cyfarthfa




Wrth ddadansoddi data’r ymatebion, dywedodd 71 o’r ymatebwyr a ddaeth i law eu bod yn byw yn Ward Cyfarthfa [2]

Wrth ddadansoddi oedran yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr Arolwg o’r Ward hon, canfuwyd y canlynol:




### Sut mae’r gyfradd ymateb hon yn cymharu â’r gyfradd ymateb gyfartalog a gyfrifwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol?

| | 0-15 | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75-84 | 85+ | Gwell ganddynt beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarthfa | 2 | 0 | 15 | 24 | 13 | 7 | 7 | 3 | 0 | 0 |
| Cyfartaledd a gofnodwyd | 3.72 | 2.9 | 8.18 | 13.63 | 11.63 | 10.09 | 5.9 | 2 | 0.5 | - |

Gan edrych ar y cyfraddau ymateb yn ôl grŵp oedran, gallwn gymharu'r rhain yn erbyn y gyfradd ymateb gyffredinol i nodi unrhyw feysydd y gellid eu datblygu ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu’r dyfodol.

Yn seiliedig ar y data a gadarnhawyd ar gyfer **Ward Cyfarthfa,** yr ystod oedran sydd â'r gyfradd ymateb uchaf yw’r preswylwyr yn yr ystod oedran **25 i 34**; gyda chyfradd ymateb yr ystod **35 i 44 oed bron ddwywaith y gyfradd gyfartalog** a gofnodwyd ar draws holl wardiau'r Fwrdeistref Sirol.

[2] Ni ellir cymhwyso'r nifer hwn yn llawn gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis peidio â nodi ym mha ward yr oeddent yn byw wrth gwblhau eu hymateb.

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Cyfarthfa eu bod yn hoffi orau am Ferthyr Tudful?

Wrth ddadansoddi’r adborth a gafwyd gan drigolion Ward **Cyfarthfa**, gellid nodi cwpl o osodiadau allweddol yn eu hadborth a oedd yn dangos yr hyn roeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned. Dyma nhw



Y bobl a’r ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol



Ei chefn gwlad, ei hardaloedd gwyrdd, ei mannau agored a’i mynediad i natur




Cyfoeth y dref o ran ei hanes, ei threftadaeth, ei chelfyddydau a’i diwylliant



Mynediad da i gyfleusterau megis siopau a lleoedd i aros

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Cyfarthfa yr hoffent ei newid?




| | |
|---|---|
| A | Yr argraff negyddol o Ferthyr Tudful - dylem hyrwyddo'r pethau cadarnhaol (**14.08%**) |
| B | Moderneiddio Canol y Dref; ceisio mewnfuddsoddiad a chefnogi busnesau lleol (**23.94%**) |
| C | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus (**15.49%**) |
| D | Mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thraffig a’i lif, ac amseru gweithiau cyhoeddus yn well (**12.67%**) |
| E | Mynd i'r afael â materion diogelwch yn y gymuned - ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau a gyrru'n beryglus (**29.57%**) |
| F | Lleihau taliadau parcio a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â pharcio (**12.67%**) |
| G | Diogelu ein hamgylchedd, mynd i'r afael â sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn yn ogystal â newid hinsawdd (**18.30%**) |
| H | Hyrwyddo ein treftadaeth a’n diwylliant yn ehangach (**8.45%**) |
| I | Mynd i'r afael â materion tai a digartrefedd lleol (**4.22%**) |
| J | Gwella cyfleusterau hamdden a chwaraeon (**8.45%**) |
| K | Darparu gweithgareddau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd (**14.08%**) |
| L | Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl (**1.40%**) |
| M | Sicrhau swyddi sy'n talu'n well yn y Fwrdeistref Sirol i helpu gyda'r argyfwng costau byw (**5.63%**) |
| N | Cyfathrebu’n gliriach a rhannu gwybodaeth mewn modd amserol (nid dim ond yn ddigidol); cynnwys pobl yn fwy (**5.63%**) |


## DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL

Dyma'r meysydd allweddol oedd trigolion Ward **Cyfarthfa** am eu newid, ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| Mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thraffig a'i lif, ac amseru gweithiau cyhoeddus yn well | Moderneiddio Canol y Dref; ceisio mewnfuddsoddiad a chefnogi busnesau lleol |
|---|---|
| • "Ymddygiad gwrthgymdeithasol, y bechgyn sy'n rasio yn oriau mân y bore ac yn defnyddio'r A470 fel trac rasio, maint y sbwriel sydd ar y strydoedd, y gwasanaethau bws".<br>• "Rwy'i wedi gweld trwbl yng nghanol y dref - ddim yn siŵr a oedd y bobl hyn dan ddylanwad diod a/neu gyffuriau ond fe wnaeth i mi deimlo ychydig yn nerfus wrth feddwl y gallai'r cyfan droi'n gas - nid yw'n creu darlun da i bobl sy'n ymweld â'r Dref".<br>• "Fel un o drigolion Merthyr, nid wyf wedi ymweld â Chanol y Dref ers tua 5 mlynedd neu fwy o bosib. Rwyf wedi codi'r pwnc hwn ar holiaduron blaenorol dros y blynyddoedd, ond nid oes dim byd wedi gwella. Y rheswm pam nad ydw i'n ymweld â Chanol y Dref yw oherwydd bod gen i ofn. Dydw i ddim eisiau cael fy mygwth neu fy nychryn gan gangiau o bobl ifanc, troi cornel i weld cam-drin sylweddau yn digwydd (alcohol a chyffuriau caled) ac unigolion yn gorwedd mewn cwter, yn mwmian yn ddigyswllt ac yn methu codi oherwydd eu bod allan o'u cof ar Sbeis! Mae angen presenoldeb cyson gan yr heddlu yng nghanol ein tref! Dyma beth sy'n gadael Merthyr i lawr fwyaf". | • "Mae angen gweddnewid adeiladau hen a blinedig y dref sydd wedi adfeilio".<br>• "Byddwn i'n bendant yn cael mwy o siopau dillad – ers i ni golli Outfit ar y Parc Manwerthu, mae'r dewis wedi bod yn gyfyngedig iawn".<br>• "Maes parcio am ddim / neu £1 y dydd i annog pobl i'r dref, cael siopau da yng Nghanol y Dref yn hytrach na'r Parc Manwerthu".<br>• "Chwalwch y dref a chanolbwyntiwch ar greu marchnad dan do enfawr ar ei chyfer gyda rhent fforddiadwy a dim ardrethi. Rhowch y gorau i raglenni adfywio sydd ddim yn cael eu harwain gan dystiolaeth; yn lle hynny, cofleidiwch y newid. Mae crynhoi ôl troed y dref a darparu parcio am ddim yn hanfodol a dylid gosod pwyntiau gwefru yn barod ar gyfer cerbydau trydan. Dylid symud parc enfawr a pharc sglefrio i ganol y dref ynghyd â darpariaethau rhad ac am ddim eraill. Bydd hyn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr ac yn cynnal busnesau fel caffis, bariau ac ati. Mae'r dref yn brin o fusnesau angori mawr a all ddenu pobl … byddai Primark yn cwrdd â demograffeg yr ardal". |
| **Gwella trafnidiaeth gyhoeddus** | **Diogelu ein hamgylchedd, mynd i'r afael â sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn yn ogystal â newid hinsawdd** |
| • "(Mae angen) gwasanaeth bws dibynadwy 7 diwrnod yr wythnos ac yn rhedeg tan o leiaf 10pm gyda'r nos".<br>• "Mae'n rhaid i ni yrru i BOBMAN. Rydyn ni'n byw ar ben uchaf Heolgerrig ac mae'r gwasanaeth bws yn wael ac yn stopio tua 5pm. Nid yw'r gwasanaeth trên yn ddigon rheolaidd i mewn ac allan o Ferthyr. Mae hyn yn anfantais fawr, ac mae'n rhaid i ni ddefnyddio ein car yn gyson gan nad yw'r gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus yn dda nac yn ddibynadwy".<br>• "Mae ein lleoliad yn berffaith ac yn hawdd ei gyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus (fel arfer), felly ni ddylai hi fod yn broblem cael pobl i ymweld â'r lle".<br>• "Dylid dwyn Stagecoach i gyfrif – nid ydym yn cael gwerth am arian". | • "Mae angen i'r Cyngor weithredu'n gadarnhaol i ddirwyo'r rhai sy'n gyfrifol am daflu sbwriel, tipio anghyfreithlon a gollwng baw cŵn".<br>• "Unwaith eto, credaf nad ydym yn hyrwyddo/cyfeirio ein treftadaeth nac yn manteisio digon ar gyfleoedd twristiaeth. Byddwn hefyd yn glanhau'r lle - mae'n cael ei ddifetha gan sbwriel a thipio anghyfreithlon. Mae timau sbwriel ac ailgylchu yn ddiog ac yn gadael i'r strydoedd edrych yn fudr. Nid yw hyn yn ddigon da, ond maen nhw'n parhau i weithredu fel hyn heb unrhyw gerydd. Rydyn ni hefyd angen gwell plismona a chosbi'r rhai sy'n difetha Merthyr Tudful".<br>• "Mae angen gwneud rhywbeth i gadw strydoedd a chefn gwlad yn lân ac yn rhydd rhag tipio anghyfreithlon a baw cŵn". |

## Beth oedd ymatebwyr yng Nghyfarthfa yn teimlo bod angen i glywed?

Arweinwyr ei




| | |
|---|---|
| A | Gwella gwasanaethau hamdden ac ailagor y pwll nofio (**12.67%**) |
| B | Gwrando ar bobl a'u cynnwys yn fwy, a chyfathrebu'n gliriach gan ddefnyddio gwahanol ddulliau (**35.21%**) |
| C | Dod yn Gyngor mwy cydweithredol (**5.63%**) |
| D | Buddsoddi mewn gwasanaethau addysg i bobl ifanc a gweithio i gael swyddi gwell ar eu cyfer (**14.08%**) |
| E | Diogelu ein hamgylchedd rhag datblygiadau adeiladu yn ogystal â rhag sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn (**11.26%**) |
| F | Moderneiddio Canol y Dref, ceisio mewnfuddsoddiad a gweithio gyda/cefnogi busnesau lleol (**18.30%**) |
| G | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus (**8.45%**) |
| H | Mynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol - ymddygiad gwrthgymdeithasol; gyrru peryglus ac ati (**11.26%**) |
| I | Lleihau costau parcio (**4.22%**) |
| J | Mynd i'r afael â materion tai lleol (**1.40%**) |
| K | Cefnogi pobl gyda'r argyfwng costau byw (e.e.) rhewi'r Dreth Gyngor (**5.63%**) |
| L | Hyrwyddo agwedd gadarnhaol ynghylch Merthyr Tudful er mwyn mynd i'r afael ag argraffiadau negyddol o'r Dref (**4.22%**) |

Dyma'r materion allweddol oedd trigolion Ward **Cyfarthfa** am eu hamlygu i'r Arweinwyr ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:


| Gwrando ar bobl a'u cynnwys yn fwy, a chyfathrebu'n gliriach gan ddefnyddio gwahanol ddulliau (ac nid rhai digidol yn unig) | Moderneiddio Canol y Dref, ceisio mewnfuddsoddiad a gweithio gyda/cefnogi busnesau lleol |
|---|---|
| • "Gofyn am farn mewn ffordd sy'n cyrraedd y bobl. Mae'r ymgynghori yn teimlo'n ddetholus - nid yw'n cael digon o gyhoeddusrwydd, ac yn aml mae'n anodd mynychu/cymryd rhan. Mae angen meddwl y tu hwnt i feddylfryd CBSMT sy'n rheoli'r rhan fwyaf o weithredoedd a phenderfyniadau".<br>• "Dylai pobl Merthyr Tudful fod yn wybodus a chael dweud eu dweud am y newidiadau sy'n digwydd o amgylch y dref".<br>• "Os ydych chi'n cymryd yr amser i wneud arolygon fel hyn, mae angen i chi gymryd yr amser i baratoi atebion ar gyfer y bobl - ar hyn o bryd, | • "Helpu busnesau gweithgynhyrchu a gwyddoniaeth lleol i dyfu er mwyn darparu mwy o swyddi sy'n talu'n dda".<br>• "Os yw Merthyr i fod yn ganolfan fanwerthu i'r Cymoedd, mae angen i chi gael mwy o fanwerthwyr i ddod yma i fasnachu – byddai hynny'n dod â mwy o swyddi hefyd".<br>• "Ynglŷn â Chanol y Dref, y bobl orau i siarad â nhw fyddai'r gymuned fusnes a fyddai'n rhoi syniadau da ichi o'r hyn sydd ei angen".<br>• "Dylid gwario llai ar adnewyddu hen adeiladau a'u troi'n swyddfeydd na fyddant byth yn cael eu defnyddio; yn hytrach, dylid buddsoddi mewn pwll nofio newydd a denu busnes i'r dref". |

| | |
|---|---|
| mae'n teimlo ein bod ni'n gweiddi i mewn i wagle ac nid felly y dylai hi fod".<br>• "Rwy'n meddwl bod angen iddynt ddeall bod barn pobl yn cyfrif. Pe byddent yn cysylltu â phobl leol wrth gynllunio gwasanaethau, efallai y gallent gael rhywfaint o wybodaeth dda a fyddai'n atal y prosiectau rhag methu".<br>• "Mae gan bobl Merthyr ran i'w chwarae i gadw'r dref yn lle gwych i fyw, ond mae angen cyfle i wneud hyn".<br>• "Mae pobl yn ffynhonnell ragorol o wybodaeth nad yw'n cael ei defnyddio i raddau helaeth ar hyn o bryd". | • "Mae'r dref yn marw - gwnewch rywbeth nawr".<br>• "Edrychwch ar gael gwell dewis o swyddi ym Merthyr fel swyddi TG neu swyddi ynni adnewyddadwy".<br>• "Mwy o siopau/bwytai yng Nghanol y Dref. Mae angen llacio'r dagfa ger cylchfan Tesco rywsut".<br>• "Mae taliadau parcio yn atal pobl rhag ymweld â busnesau bach sydd eisoes yn cael trafferth yng Nghanol y Dref!". |
| **Diogelu ein hamgylchedd rhag datblygiadau adeiladu a sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn** | |
| • "Hefyd mae angen i barciau cyhoeddus gael eu cynnal a dylid torri'u glaswellt - nid cae heb ei dorri yw dôl. Does dim esgus – torrwch y gwair a'i gadw'n dwt er mwyn i bawb gael elwa o awyr iach a gerddi hardd".<br>• "Mae sbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar raddfa chwerthinllyd, mae'r parciau yn wael iawn i blant ifanc, mae cyffuriau yn cael eu gwerthu'n amlwg o gwmpas y dref a'r stadau, ac mae plâu llygod mawr i'w gweld ym mhobman. Dylai pawb fedru gwaredu'u gwastraff am ddim".<br>• "(Mae angen) tref sy'n fwy diogel a glân, a dylid taclo'r rhai sy'n ei gwneud hi'n anniogel ac sy'n rhacsio ein tirweddau".<br>• "Mae angen gwella ein Canolfannau Hamdden (e.e.) Rhydycar. Mae angen ailwampio parciau fel Cyfarthfa a Thretomos".<br>• "Ar hyn o bryd, mae fy anghenion wythnosol a misol i gyd yn cael eu diwallu y tu allan i'r dref. Er enghraifft, parciau, mannau chwarae, mannau chwarae meddal dan do, campfeydd, heb sôn am siopau". | |

# DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL




Dywedodd plant a phobl ifanc (0-24 oed) eu bod am i'r Cyngor:

| | | | |
|---|---|---|---|
|  |  |   |  |
| Gwella'r gwasanaeth bws sy'n rhedeg ar ôl 6.30 gyda'r hwyr | Gwella Canol y Dref; cael gwell siopau a chynnig mwy o ddewis | Helpu pobl i reoli effaith yr argyfwng costau byw | Gwrando ar bobl a rhoi sylw i'r hyn sy'n bwysig yn eu tyb nhw |




Dywedodd pobl o oedran gweithio (25-54 oed) eu bod am i'r Cyngor:


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| Gwrando'n fwy astud ar y gymuned a chynnwys pobl cyn i benderfyniadau gael eu gwneud | Moderneiddio Canol y Dref; cefnogi busnesau lleol a chynnig mwy o ddewis | Diogelu'r amgylchedd rhag sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn | Lleihau costau parcio | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus fel bod pobl yn gallu mynd i'w gwaith ac yn ôl |



Dywedodd pobl hŷn (55+ oed) eu bod am i'r Cyngor:


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| Gwrando'n fwy astud ar y gymuned a chynnwys pobl cyn i benderfyniadau gael eu gwneud | Gwella Canol y Dref; cael gwell siopau a chynnig mwy o ddewis | Diogelu'r amgylchedd rhag sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn | Hyrwyddo'r pethau cadarnhaol - mynd i'r afael â'r camsyniadau am Ferthyr Tudful | Gwarchod a hyrwyddo treftadaeth a diwylliant unigryw Merthyr Tudful |

## Ymgysylltu â phobl o: Ward Dowlais




Wrth ddadansoddi data'r ymatebion, dywedodd **63** o'r ymatebwyr a ddaeth i law eu bod yn byw yn Ward Dowlais. [3]

Wrth ddadansoddi oedran yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr Arolwg o'r Ward hon, canfuwyd y canlynol:




### Sut mae'r gyfradd ymateb hon yn cymharu â'r gyfradd ymateb gyfartalog a gyfrifwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol?

| | 0-15 | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75-84 | 85+ | Gwell ganddynt beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dowlais | 8 | 4 | 8 | 17 | 7 | 11 | 5 | 2 | 1 | 0 |
| Cyfartaledd a gofnodwyd | 3.72 | 2.9 | 8.18 | 13.63 | 11.63 | 10.09 | 5.9 | 2 | 0.5 | - |

Gan edrych ar y cyfraddau ymateb yn ôl grŵp oedran, gallwn gymharu'r rhain yn erbyn y gyfradd ymateb gyffredinol i nodi unrhyw feysydd y gellid eu datblygu ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu'r dyfodol. Yn seiliedig ar y data a gadarnhawyd ar gyfer **Ward Dowlais,** yr ystod oedran sydd â'r gyfradd ymateb uchaf yw'r preswylwyr yn yr ystod oedran **0 i 15 oed** – ac roedd hyn **dros ddwywaith y gyfradd gyfartalog** a gofnodwyd ar draws holl wardiau'r Fwrdeistref Sirol.

[3] Ni ellir cymhwyso'r nifer hwn yn llawn gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis peidio â nodi ym mha ward yr oeddent yn byw wrth gwblhau eu hymateb.

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Dowlais eu bod yn hoffi orau am Ferthyr Tudful?

Wrth ddadansoddi'r adborth a gafwyd gan drigolion Ward **Dowlais**, gellid nodi cwpl o osodiadau allweddol yn eu hadborth a oedd yn dangos yr hyn roeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned. Dyma nhw:



Y bobl a'r ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol



Ei chefn gwlad a'i hardaloedd gwyrdd, ei mannau agored a'i mynediad i natur




Cyfoeth y dref o ran ei hanes, ei threftadaeth, ei chelfyddydau a'i diwylliant




Mynediad da i gyfleusterau megis siopau, cymorth meddygol a gweithgareddau

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Dowlais yr hoffent ei newid?





| | |
|---|---|
| A | Gwella cyfleusterau hamdden fel eu bod yn hygyrch ac yn fforddiadwy i bobl leol **(20.63%)** |
| B | Gwella meysydd chwarae, cynnal mwy o ddigwyddiadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd **(12.69%)** |
| C | Gwella'r gwasanaeth bws fel ei fod yn ddibynadwy a fforddiadwy **(9.52%)** |
| D | Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thai **(6.34%)** |
| E | Gwella cyfleoedd cyflogaeth (e.e.) hyfforddiant am ddim, swyddi sy'n talu'n well **(6.34%)** |
| F | Mynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol (e.e.) YGG, defnyddio cyffuriau, gyrwyr peryglus **(25.39%)** |
| G | Hyrwyddo'r pethau cadarnhaol am Ferthyr - ei chelfyddydau, ei cherddoriaeth a'i threftadaeth **(11.11%)** |
| H | Gwella cynllun/llif traffig, cyflwr y ffyrdd a phroblemau parcio **(11.11%)** |
| I | Gwella/moderneiddio Canol y Dref, gan annog busnesau newydd cadarnhaol **(17.46%)** |
| J | Diogelu ein hamgylchedd rhag sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn; mynd i'r afael ag ansawdd aer o amgylch Tomen Trecati **(9.52%)** |
| K | Helpu pobl i ymdopi â'r argyfwng costau byw/tlodi **(3.17%)** |
| L | Cyfathrebu'n well, cynnwys y trigolion a sicrhau bod y wefan yn gyfredol **(4.76%)** |

## DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL

Dyma'r meysydd allweddol oedd trigolion Ward **Dowlais** am eu newid, ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| Mynd i'r afael â materion diogelwch y gymuned (e.e.) YGG, defnyddio cyffuriau, gyrwyr peryglus | Gwella cyfleusterau hamdden fel eu bod yn hygyrch ac yn fforddiadwy i bobl leol |
|---|---|
| • "Da chi, gwnewch rywbeth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ddiweddar, mae'n ymddangos bod cynnydd wedi bod yn nifer y digwyddiadau. Dwi'n sicr yn gweld mwy a mwy o bostiadau am bobl ifanc yn gwneud pethau diflas a pheryglus am hwyl – taflu cerrig at geir, ceisio cicio drysau i mewn, dwyn beiciau a malu poteli (mae Dowlais yn cael ei tharo'n wael ar hyn o bryd). Byddwn am newid y ffordd yr eir ati i daclo'r broblem hon am nad yw'n gwella o gwbl".<br>• "Mae angen stopio ymddygiad gwrthgymdeithasol a rasio ceir o amgylch Merthyr".<br>• "Byddwn i'n mynd i'r afael â'r bobl sy'n gyrru'n wallgof a byddwn yn ceisio taclo'r problemau sy'n ymwneud â pharcio hefyd".<br>• "Rwy'n meddwl nad oes digon o negeseuon diogelwch ar gyfer y gymuned. Cyfeirio ydw i at y negeseuon cyffredinol yn hytrach na'r rhai sy'n benodol i Covid ac rwy'n meddwl bod hyn yn ychwanegu at yr argraff nad yw'r dref yn ddiogel. Byddwn i'n dechrau cynnig diweddariadau rheolaidd i helpu pobl ddeall yr hyn sy'n cael ei wneud i ddiogelu'r gymuned". | • "Gwellwch yr ardaloedd chwarae i blant, a darparwch fwy o gyrtiau tennis gan nad oes gennym ni'r un o fewn pellter cerdded. Mae angen pwll er mwyn i fy mab gael gwersi nofio".<br>• "Byddwn i'n gwneud rhywbeth am y cyfleusterau hamdden - dwi'n gwybod nad y Cyngor sydd â gofal amdanynt ond mae'r cyfleusterau wedi bod yn eithaf ofnadwy dros y blynyddoedd diwethaf (e.e.) dim pwll na phad sblasio, llifogydd yn y ganolfan chwaraeon".<br>• "Fel person hŷn, rwy'i am fod yn annibynnol a chadw'n iach ac yn heini i barhau'n weithredol. Roeddwn i'n arfer mynd i nofio flynyddoedd yn ôl ym Maddonau Gwaunfarren ac yna dechreuais fynd i nofio yn Rhydycar pan gafodd ei adnewyddu – dwi wir yn gweld eisiau'r pwll ac rwy'n siŵr y dylech wneud rhywbeth i adfer y sefyllfa - mae nofio yn ymarfer gwych gan fod y dŵr yn eich cefnogi chi, ac mae'n fodd i gadw'n heini ac yn iach".<br>• "Gwasanaethau hamdden - mae problemau gordewdra enfawr yn y cymoedd ac mae ein cyfleusterau yn wael". |
| **Gwella gwasanaethau i blant a theuluoedd (e.e.) meysydd chwarae, cyfleusterau chwaraeon a digwyddiadau am ddim** | **Gwella a moderneiddio Canol y Dref gan annog busnesau newydd cadarnhaol** |
| • "Gwellwch yr ardaloedd chwarae i blant, a darparwch fwy o gyrtiau tennis gan nad oes gennym ni'r un o fewn pellter cerdded. Mae angen pwll nofio er mwyn i fy mab gael gwersi nofio".<br>• "Gan nad ydw i'n gyrru, dwi'n cael trafferth mynd o gwmpas gyda'r diffyg bysiau. Mae fy mhlant yn hoff iawn o chwaraeon ond does dim cae pêl-droed, cyrtiau tenis, na chyrtiau pêl-fasged ar gael ym Mhant lle rwy'n byw".<br>• "Mae angen gwell cyfleusterau a gweithgareddau i blant a phobl ifanc er mwyn annog gweithgareddau awyr agored, dysgu, ennill sgiliau ac adeiladu tîm".<br>• "Byddwn i'n newid Merthyr Tudful drwy ychwanegu mwy o weithgareddau hwyl ar gyfer y plant". | • "Mae gan Ferthyr lwyth o siopau a llefydd i fwyta ac yfed ond mae hynny'n golygu bod llawer o'r swyddi yn cynnig cyflogau is (oni bai eich bod yn gweithio i'r ysbyty neu'r Cyngor neu leoedd felly). Byddwn i'n edrych i weld a oes modd denu busnesau mwy o faint i'r ardal sy'n talu cyflogau gwell".<br>• "Cyflwyno mwy o ddarparwyr gweithgynhyrchu a gwasanaethau i greu mwy o swyddi a gwell rhagolygon."<br>• "Mae adeiladau hanesyddol, yn enwedig yng Nghanol y Dref, yn cael eu gadael i bydru a throi'n beryglus. Er hynny, fe ellid eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau amrywiol/mentrau newydd". |

**Beth oedd ymatebwyr yn Nowlais yn teimlo bod angen i Arweinwyr ei glywed?**




| | |
|---|---|
| A | Gwella gwasanaethau bws **(6.34%)** |
| B | Mynd i'r afael â diogelwch cymunedol, ymddygiad gwrthgymdeithasol/gyrru peryglus, a gwneud plismona yn fwy gweladwy **(15.87%)** |
| C | Ffocysu gwariant y Cyngor ar bethau hanfodol fel gwasanaethau cymdeithasol a buddsoddi i wella **(4.76%)** |
| D | Gwella cyfleusterau hamdden a chwaraeon; ailagor y pwll nofio **(12.69%)** |
| E | Ymgysylltu â phobl leol (nid yn ddigidol yn unig), a gwrando mwy **(22.22%)** |
| F | Diogelu ein hamgylchedd rhag sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn **(6.34%)** |
| G | Cefnogi pobl i ymdopi â'r argyfwng costau byw (e.e.) Siop Atgyweirio/Ailddefnyddio **(4.76%)** |
| H | Cynyddu cysylltedd ar draws Merthyr Tudful a'r rhanbarth ehangach **(1.58%)** |
| I | Ceisio cynyddu cyllid gwasanaethau cyhoeddus fel y gallant ddatblygu a gwella **(4.76%)** |

Dyma'r materion allweddol oedd trigolion Ward **Dowlais** am eu hamlygu i'r Arweinwyr ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:


| Gwrando ar/ymgysylltu â phobl leol (nid dim ond yn ddigidol); a gwrando mwy | Mynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol: ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyrru'n beryglus, a gwneud plismona yn fwy gweladwy |
|---|---|
| • "Gwrando ar y cyhoedd ac ymgysylltu mwy. Nid yn unig adeg etholiad!".<br>• "Heblaw am y rhai sy'n grwgnach byth a hefyd yn erbyn y Cyngor, mae aelodau call o'r cyhoedd hefyd yn cwyno am y gwasanaeth a gânt am eu bil Treth Gyngor. Efallai y dylid sefydlu grŵp ymhob Ward Cyngor gyda chynrychiolwyr ym mhob Ward. Er enghraifft, mae gan y rhan fwyaf o wardiau grŵp Facebook erbyn hyn. Rwy'n aelod o ddau ohonyn nhw ac mae'r ddau yn galw'n rheolaidd ar Gynghorwyr eu Ward i gyfleu eu meddyliau a'u negeseuon. Wrth weithredu ychydig yn fwy tryloyw efallai y byddai'r cyhoedd yn llai tebygol o gwyno gan y byddent yn deall fod | • "Rwy'n meddwl yn bendant fod angen gwneud rhywbeth am droseddau ieuenctid ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nid yw'r pethau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd yn gweithio a bu rhai methiannau agos o ganlyniad. Rwy'n gwybod nad y Cyngor yn unig ond hefyd yr Heddlu sy'n ymwneud â hyn, ond y cwestiwn oedd "beth ydych chi'n meddwl sydd angen i bobl mewn rheolaeth ei glywed?". Flynyddoedd yn ôl, roedd Merthyr Ddiogelach yn arfer bod allan yn cynnig cyngor ar atal troseddau ac yn helpu pobl fregus trwy newid ac uwchraddio cloeon ac ati - beth ar y ddaear ddigwyddodd i'r gwaith hwnnw?". |

| | |
|---|---|
| dwylo'r Cyngor weithiau wedi'u clymu a bod penderfyniadau'n cael eu llywodraethu gan gyllidebau neu ddeddfwriaeth".<br>• "Rwy'n meddwl bod angen iddyn nhw glywed lleisiau a barn y mwyafrif o bobl ifanc (nid yn unig y rhai sy'n hyderus i leisio'u barn, ond y rhai nad ydynt yn cael eu clywed ac sy'n dod o fagwraeth dlotach). Mae angen iddyn nhw wneud y dref yn fodern a gwella'r mynediad i gyfleusterau".<br>• "Dros y ddegawd ddiwethaf, mae rhan fwyaf o benderfyniadau'r Cyngor yn edrych fel petaent yn mynd yn groes i ddymuniadau mwyafrif y cymunedau. Mae'n ymddangos bod yr Awdurdod yn ei gyfanrwydd yn gwneud fel y mynno waeth beth yw barn a dymuniadau'r gymuned. Mae'n rhoi'r ymdeimlad i'r gymuned nad yw'r Awdurdod yn parchu eu dymuniadau na'u barn". | • "Mae angen i (Arweinwyr) glywed pryder a dicter y trigolion ynghylch yr ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd yn y Fwrdeistref ar hyn o bryd".<br>• "Mae angen gwneud rhywbeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd am ryw reswm mae'r lleiafrif bychan yn parhau i ddifetha pethau ar gyfer y mwyafrif".<br>• "Rwy'n meddwl y gallai'r Heddlu fod yn gwneud llawer mwy hefyd – rwy'n gwybod na allant fod ym mhobman drwy'r amser, ond gallent ddangos eu hwynebau weithiau pan ddaw'r problemau hyn i'r amlwg".<br>• "Rhowch drefn ar yr ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol y dref i'w wneud yn lle llai brawychus i ymweld ag ef, ac ewch i'r afael â'r adeiladau 'rhestredig' hyll - maen nhw'n ofnadwy. A hefyd, taclwch y gyrru peryglus sy'n digwydd yn ystod y nos". |
| **Gwella cyfleusterau hamdden a chwaraeon; ailagor y pwll nofio** | |
| • "Dwi'n meddwl bod angen iddyn nhw fynd i'r afael â'r sefyllfa i adnewyddu'r gwasanaeth hamdden".<br>• "Mae angen iddyn nhw glywed er bod gan y dref ddatblygiadau da, mae angen mynd i'r afael â'r diffyg pwll yn y brif dref a'r rheolaeth wael o Barc Cyfarthfa. Does dim esgus i'r prif bwll fod ar gau am gyfnod mor sylweddol".<br>• "Gwnewch rywbeth am y pwll nofio os gwelwch yn dda".<br>• "Mae angen pwll nofio ar gyfer ein plant!".<br>• "Byddwn i'n gwneud rhywbeth am y cyfleusterau hamdden - dwi'n gwybod nad y Cyngor sydd â gofal amdanynt ond mae'r cyfleusterau wedi bod yn eithaf ofnadwy dros y blynyddoedd diwethaf (e.e.) dim pwll na phad sblasio, llifogydd yn y ganolfan chwaraeon".<br>• "Fel person hŷn, rwy'i am fod yn annibynnol a chadw'n iach ac yn heini i barhau'n weithredol. Roeddwn i'n arfer mynd i nofio flynyddoedd yn ôl ym Maddonau Gwaunfarren ac yna dechreuais fynd i nofio yn Rhydycar pan gafodd ei adnewyddu – dwi wir yn gweld eisiau'r pwll ac rwy'n siŵr y dylech wneud rhywbeth i adfer y sefyllfa - mae nofio yn ymarfer gwych gan fod y dŵr yn eich cefnogi chi, ac mae'n fodd i gadw'n heini ac yn iach". | |

# DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL




Dywedodd plant a phobl ifanc (0-24 oed) eu bod am i'r Cyngor:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  Amrywiaeth a Chynhwysiant |
| Gwneud gweithgareddau hamdden a chwaraeon yn fwy fforddiadwy | Darparu mwy o gyfleusterau i blant, pobl ifanc a theuluoedd | Gwella diogelwch cymunedol (e.e.) mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; plismona mwy gweladwy | Moderneiddio Canol y Dref a denu siopau gwell | Cynnig mwy o addysg ar amrywiaeth a chynhwysiant |




Dywedodd pobl o oedran gweithio (25-54 oed) eu bod am i'r Cyngor:


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| Gwella gwasanaethau hamdden | Gwella diogelwch cymunedol (e.e.) mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; plismona mwy gweladwy | Darparu mwy o gyfleusterau i blant, pobl ifanc a theuluoedd | Moderneiddio Canol y Dref, denu siopau gwell a chefnogi busnesau lleol | Gwrando ar bobl leol a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt gymryd rhan |



Dywedodd pobl hŷn (55+ oed) eu bod am i'r Cyngor:


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| Gwrando ar bobl leol a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt gymryd rhan a chyfathrebu'n well | Gwella diogelwch cymunedol (e.e.) mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; plismona mwy gweladwy | Gwella'r gwasanaeth bws | Moderneiddio canol y dref, denu gwell siopau a chefnogi busnesau lleol | Gwarchod a hyrwyddo treftadaeth Merthyr Tudful |

## Ymgysylltu â phobl o: Ward Gurnos




Wrth ddadansoddi data'r ymatebion, dywedodd **57** o'r ymatebwyr eu bod yn byw yn Ward Gurnos. [4]

Wrth ddadansoddi oedran yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr Arolwg o'r Ward hon, canfuwyd y canlynol:




### Sut mae'r gyfradd ymateb hon yn cymharu â'r gyfradd ymateb gyfartalog a gyfrifwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol?

| | 0-15 | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75-84 | 85+ | Gwell ganddynt beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gurnos | 2 | **9** | 12 | 12 | 6 | 10 | 6 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfartaledd a gofnodwyd | 3.72 | **2.9** | 8.18 | 13.63 | 11.63 | 10.09 | 5.9 | 2 | 0.5 | - |

Gan edrych ar y cyfraddau ymateb yn ôl grŵp oedran, gallwn gymharu'r rhain yn erbyn y gyfradd ymateb gyffredinol i nodi unrhyw feysydd y gellid eu datblygu ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu'r dyfodol. Yn seiliedig ar y data a gadarnhawyd ar gyfer **Ward Gurnos,** yr ystod oedran sydd â'r gyfradd ymateb uchaf yw'r preswylwyr yn yr ystod oedran **16-24 oed** – ac roedd hyn **bron deirgwaith y gyfradd gyfartalog** a gofnodwyd ar draws holl wardiau'r Fwrdeistref Sirol.


[4] Ni ellir cymhwyso'r nifer hwn yn llawn gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis peidio â nodi ym mha ward yr oeddent yn byw wrth gwblhau eu hymateb.

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Gurnos eu bod yn hoffi orau am Ferthyr Tudful?

Wrth ddadansoddi'r adborth a gafwyd gan drigolion Ward **Gurnos**, gellid nodi cwpl o osodiadau allweddol yn eu hadborth a oedd yn dangos yr hyn roeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned. Dyma nhw:



Y bobl ac ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol



Mynediad da i gyfleusterau megis siopau, cymorth meddygol a gweithgareddau




Ei chefn gwlad a'i hardaloedd gwyrdd, ei mannau agored a'i mynediad i natur



Hanes a threftadaeth y dref – rhywbeth i fod yn falch ohono

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Gurnos yr hoffent ei newid?





| | |
|---|---|
| A | Mwy o dai fforddiadwy, dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd **(5.26%)** |
| B | Mwy o help i rieni sengl a theuluoedd, a gwella'r addysgu mewn ysgolion **(7.01%)** |
| C | Gwella gwasanaethau hamdden, ailagor y pwll nofio **(8.77%)** |
| D | Mwy o gyllid ar gyfer parciau a meysydd chwarae, a mwy o gefnogaeth i gyfleusterau cymunedol **(14.03%)** |
| E | Diogelu ein mannau gwyrdd rhag datblygiadau a mynd i'r afael â sbwriel, tipio anghyfreithlon a fermin **(12.28%)** |
| F | Mynd i'r afael â materion diogelwch yn y gymuned (e.e.) ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau (yn enwedig yng Nghanol y Dref), a chynyddu gwelededd yr Heddlu **(21.05%)** |
| G | Gwella'r gwasanaethau bws fel eu bod yn ddibynadwy ac yn diwallu anghenion **(15.78%)** |
| H | Moderneiddio/datblygu Canol y Dref (e.e. cyflwyno meithrinfa), denu buddsoddiad a chefnogi busnesau lleol **(17.54%)** |
| I | Ailffocysu/gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (e.e.) mynediad at feddygon teulu a deintyddion; mwy o ddigwyddiadau cymdeithasol i bobl hŷn **(12.28%)** |
| J | Diogelu a datblygu ein treftadaeth a'n diwylliant a hyrwyddo pethau cadarnhaol am Ferthyr **(10.52%)** |
| K | Mynd i'r afael â phroblemau traffig a pharcio, yn enwedig o amgylch ysgolion **(8.77%)** |

## DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL

Dyma'r meysydd allweddol oedd trigolion Ward **Gurnos** am eu newid, ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| Mynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol (yn enwedig Canol y Dref) gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau ac ati, a chynyddu gwelededd yr Heddlu | Moderneiddio/datblygu Canol y Dref, denu mewnfuddsoddiad a chefnogi busnesau lleol |
|---|---|
| • "Yng Nghanol y Dref, dydw i ddim yn teimlo'n ddiogel (felly) byddwn i'n newid hynny".<br>• "Mae Canol y Dref yn edrych yn eitha trist ar hyn o bryd – mae colli siopau 'mawr' fel Wilkinsons a D2 yn ergyd, a does neb yn gwybod beth sydd ar y gweill i gymryd eu lle (dwi'n gwybod bod yna Wilkinsons yn y Parc Manwerthu ond nid oes gan bawb gar i'w gyrraedd ac mae'r bysiau'n eitha gwael".<br>• "Dwi'n meddwl ers y Coronafeirws fod rhai o'r llefydd sy'n gwerthu bwyd wedi gadael i'w safonau lithro a byddwn i'n newid y ffordd y mae'r rhain yn cael eu harolygu fel eu bod yn cael eu harchwilio'n amlach".<br>• "Mae angen i bobl deimlo'n ddiogel ac yn hyderus y gallant gwrdd â'u teulu a'u ffrindiau yn hawdd. Gallwch fynd yn bell i wireddu hynny trwy wneud mwy i atal troseddau a chael bysiau i redeg yn hwyrach gyda'r nos". | • "Mwy o siopau brand - Nike, Adidas, Under Armour ac ati".<br>• "Bydd rhent is ar siopau yn annog rhagor o bobl i agor mwy o fusnesau a denu mwy o gadwyni ym mhen ucha'r farchnad, fel PRIMARK, HMV".<br>• "Mae Canol y Dref yn edrych yn flinedig, ac mae'r siopau i gyd yn edrych yr un fath. Hoffwn weld newid agwedd o gwmpas hyn. Gobeithio y bydd hyn yn dod â mwy o bobl o'r tu allan i Ferthyr i wario eu harian yma".<br>• "Edrychwch ar ffyrdd o annog busnesau sy'n cynnig swyddi o ansawdd gwell i sefydlu yma. Dylech ffocysu ar addysgu mewn ysgolion – mae'r elfennau ychwanegol a gynigir yn dda ond ni ddylent fod ar draul ansawdd yr addysgu".<br>• "Pan oeddwn i'n iau, roedd Canol y Dref yn fwrlwm ond mae wedi mynd yn dawel yn enwedig ers i Wilko gau. Hoffwn i gael mwy o siopau gwahanol yn y dref". |
| **Gwella'r gwasanaeth bws fel ei fod yn ddibynadwy ac yn fforddiadwy** | **Darparu mwy o arian ar gyfer parciau a meysydd chwarae a mwy o gymorth i gyfleusterau cymunedol** |
| • "Er fy mod i'n gwybod nad chi sy'n rheoli trafnidiaeth gyhoeddus, rwy'n gobeithio bod gennych rywfaint o ddylanwad i'w wella. Rwy'n gwybod o brofiad uniongyrchol fod hyn yn effeithio ar bobl sydd ddim yn gyrru ond sydd angen mynd i'r ysbyty. Os na ellir sortio'r bysiau, byddwn i'n edrych ar gynlluniau cymunedol sy'n defnyddio gyrwyr gwirfoddol. Nid dim ond pobl â chyflyrau iechyd sy'n cael eu heffeithio – gallwch ddod o'r gwaith a methu'r bws olaf gartref. Nid pawb all ffonio rhywun am lifft neu fforddio tacsi".<br>• "Mae angen i'r bysiau redeg yn amlach".<br>• "Mae cysylltiadau trafnidiaeth yn wael, ac er bod y Parc Manwerthu funudau i ffwrdd o Ganol y Dref, mae dewis gwael o siopau manwerthu yn y dref ei hun". | • "Mae angen darparu mwy o gyllid a gwario mwy o arian ar wella parciau plant yn yr ardal".<br>• "Byddwn i'n gwneud rhywbeth am y tipio anghyfreithlon a'r baw ci – mae cerdded draw i'r parc o fy nhŷ yn peri dychryn i mi".<br>• "(Mae angen) mwy o gyfleusterau/gwasanaethau o fewn ein cymunedau yn lle gorfod teithio i'r dref/Keir Hardie".<br>• "(Mae angen) mwy o ganiau sbwriel".<br>• "Mae angen mwy o weithredu i atgyweirio cyfleusterau ym Merthyr". |

## Beth oedd ymatebwyr yng Ngurnos yn teimlo bod angen i'r Arweinwyr ei glywed?




| | |
|---|---|
| A | Parcio gwell neu am ddim **(3.50%)** |
| B | Gwrando ar/ymgysylltu â phobl leol a gwella cyfathrebiad **(29.82%)** |
| C | Buddsoddi/trwsio cyfleusterau cymunedol gan gynnwys meysydd chwarae a pharciau, a rhoi trefn ar wasanaethau hamdden; ailagor y pwll nofio **(14.03%)** |
| D | Darparu cefnogaeth i bobl mewn tlodi a cheisio rheoli'r cynnydd mewn costau byw **(10.52%)** |
| E | Mynd i'r afael â materion diogelwch y gymuned (e.e.) gyrru'n beryglus, cyffuriau **(10.52%)** |
| F | Buddsoddi i gefnogi datblygiad tai fforddiadwy **(3.50%)** |
| G | Gwella gwasanaethau bws fel eu bod yn ddibynadwy ac yn diwallu'r angen **(7.01%)** |
| H | Moderneiddio/gwella Canol y Dref a denu cyflogwyr newydd/gwahanol (e.e.) ym maes technoleg/gwyddoniaeth, i hybu cyflogau **(7.01%)** |
| I | Darparu gweithgareddau i blant, pobl ifanc a theuluoedd (gan gynnwys mynediad at ofal plant) **(8.77%)** |
| J | Hyrwyddo nodweddion cadarnhaol Merthyr Tudful (e.e.) y celfyddydau, diwylliant i fanteisio ar botensial y lle (8.77%) |

Dyma'r materion allweddol oedd trigolion Ward **Gurnos** am eu hamlygu i'r Arweinwyr ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:


| Gwrando ar/ymgysylltu â phobl leol a gwella cyfathrebiad | Darparu cefnogaeth i bobl mewn tlodi a cheisio ymdopi â'r argyfwng costau byw |
|---|---|
| • "Meddyliwch am ofyn i bobl am y pethau rydych chi'n bwriadu eu gwneud cyn i chi wneud nhw - efallai y byddan nhw'n gallu rhoi gwybodaeth ychwanegol a fydd yn helpu i sicrhau bod eich cynlluniau'n gywir".<br>• "Dylai'r Cyngor wrando ychydig mwy ar y bobl sy'n byw yma – edrychwch ar y problemau gyda Chaeau Greenie. Rwy'n meddwl bod yr holl beth wedi'i drin yn wael iawn ac wedi achosi cymaint o ofid – pe bai rhai trafodaethau go iawn wedi'u cynnal gyda thrigolion yn ystod yr ymgynghoriad, gellid bod wedi osgoi llawer o hynny."<br>• "Rwy'n meddwl pe bai'r Cyngor yn rhoi mwy o adborth ynghylch rhai o'i benderfyniadau, byddai pobl yn eu derbyn yn well o lawer. Dwi'n deall | • "Mae pobl yn cael trafferth byw a chael dau ben llinyn ynghyd".<br>• "Rydych chi'n gwneud gwaith da, ond rwy'n meddwl y bydd pethau'n mynd yn anoddach gyda'r argyfwng costau byw".<br>• "Dyw tlodi ond yn mynd i waethygu, ac mae angen i bawb gydweithio i frwydro yn erbyn hyn, a dwi'n meddwl bod gan y Cyngor ran i'w chwarae yn hyn o beth".<br>• "Helpwch y bobl gymaint ag y gallwch chi. Rwy'n gwybod bod yna doriadau yn effeithio arnoch chi hefyd, ond er y diffyg arian, fe allwch chi gynnig math arall o help sef, help ymarferol" " |

| | |
|---|---|
| bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd, ond heb wybod y rhesymau y tu ôl iddyn nhw, maen nhw bron yn amhosibl i'w dehongli".<br>• "Yn syml, dysgwch wrando".<br>• "Mae llawer o'r safbwyntiau mwyaf negyddol yn dweud y dylech chi weithio *i'r* bobl. Ar un olwg dwi'n gweld hyn, ond dwi'n meddwl y dylech chi weithio GYDA'r bobl – mae yna gronfa enfawr o dalent yn y Dref heb ei gyffwrdd". | • Mae cymaint o bwysau ar bawb ar hyn o bryd. Nawr yw'r amser i ddewis eich brwydrau. Rwy'n poeni llai am dorri glaswellt a murluniau ac yn poeni mwy am allu pobl i fwydo'u plant". |
| **Mynd i'r afael â materion diogelwch y gymuned, e.e. cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyrru'n beryglus** | **Buddsoddi/trwsio cyfleusterau cymunedol gan gynnwys meysydd chwarae a pharciau; rhoi trefn ar y gwasanaeth hamdden; ailagor y pwll nofio** |
| • "Mae yna lawer o broblemau y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw. Mae tai yn ddrud iawn i ddechrau. Gall Canol y Dref fod yn arw gyda meddwon a 'sbeis-bennau' yn sarnu'r dref ac yn diflasu pobl. Dylem edrych yn ôl at yr hyn wnaeth Merthyr Ddiogelach flynyddoedd yn ôl - roedd ganddyn nhw wardeniaid ar y Gurnos, ac roeddent yn wych. Does bosib y gallwn ni gael rhywbeth tebyg i hynny eto?".<br>• "Bysiau, rasio ceir, beiciau modur ar lwybrau a pharciau o amgylch Merthyr (e.e.) Parc Cyfarthfa".<br>• "Mae angen i bobl deimlo'n ddiogel ac yn hyderus y gallant gwrdd â'u teulu a'u ffrindiau yn hawdd. Gallwch fynd yn bell i wireddu hynny trwy wneud mwy i atal troseddau a chael bysiau i redeg yn hwyrach gyda'r nos".<br>• "Mae beiciau modur, ceir yn goryrru a cheir yn popio'u hallbibau yn bla ar y dref hon ac nid yw rhybuddion yn ddigon. Os daliwch chi nhw unwaith - GWEITHREDWCH. Bydd hynny'n atal y broblem rhag lledaenu ymhellach".<br>• Mae'r camddefnydd o gyffuriau a sylweddau yn amlwg yng Nghanol y Dref ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Gall wynebu'r defnyddwyr hyn fod yn frawychus ac nid yw'n portreadu delwedd dda o Ferthyr Tudful". | • "Y broblem yw nad oes unrhyw beth i'w wneud ym Merthyr - dim pwll nofio ac ati".<br>• "Does dim llawer o lefydd i bobl ifanc gwrdd. Byddwn i'n edrych i mewn i wneud rhywbeth ynghylch hyn".<br>• "(Mae angen) mwy o gyfleusterau/gwasanaethau o fewn ein cymunedau yn hytrach na gorfod teithio i'r dref/Keir Hardie".<br>• "Dwi'n meddwl y byddai'r ganolfan hamdden yn cynnig mwy pe bai'r pwll nofio ar agor. Roedden ni'n arfer mynd â'r plant yno pan oedden nhw'n fach. Heb allu gwneud hynny ers oesoedd, felly hoffwn iddo ailagor cyn gynted â phosibl".<br>• "(Mae angen i'r Arweinwyr glywed) pa mor anfodlon ydyn ni gyda'r diffyg cyfleusterau".<br>• "Rhowch fwy o bethau i blant eu gwneud. Mae pobl yn meddwl eu bod nhw'n gwneud rhyw ddrygioni ond efallai mai dyna'r unig le y gallant gwrdd".<br>• "Rwy'n meddwl y gallai Canol y Dref gael meithrinfa er mwyn i rieni a gofalwyr fedru gollwng eu plant a siopa mewn heddwch, gan wybod y byddai eu plant yn cael gofal. Bellach, mae'r Cyngor yn berchen ar Ganolfan Siopa Santes Tudful - a allai hyn fod yn rhywbeth y gellid ei wneud yno?". |

# DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL




Dywedodd plant a phobl ifanc (0-24 oed) eu bod am i'r Cyngor:

| | | | |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| Darparu mwy o gyfleusterau i blant, pobl ifanc a theuluoedd | Gwrando ar bobl ifanc a rhoi sylw i'r hyn maen nhw'n ei weld yn bwysig | Darparu mwy o gefnogaeth i ofalwyr ifanc | Rhoi mynediad at ofal plant fforddiadwy a hygyrch er mwyn cefnogi mynediad i hyfforddiant/gwaith |




Dywedodd pobl o oedran gweithio (25-54 oed) eu bod am i'r Cyngor:


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| Moderneiddio Canol y Dref, gwella diogelwch a denu siopau newydd | Diogelu ein hamgylchedd rhag sbwriel a thipio anghyfreithlon | Cyfathrebu â/cynnwys pobl leol yn fwy effeithiol a gwrando ar eu hadborth | Hyrwyddo Merthyr Tudful mewn modd cadarnhaol | Gwella'r gwasanaeth bws fel ei fod yn ddibynadwy ac yn diwallu'r angen |



Dywedodd pobl hŷn (55+ oed) eu bod am i'r Cyngor:


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| Glanhau ein hamgylchedd, delio â sbwriel a thipio anghyfreithlon | Gwella'r gwasanaeth bws | Cyfathrebu â/cynnwys pobl leol yn fwy effeithiol a gwrando ar eu hadborth | Moderneiddio Canol y Dref, gwella diogelwch a denu siopau newydd | Hyrwyddo Merthyr Tudful mewn modd cadarnhaol |

## Ymgysylltu â phobl o: Ynysowen




Wrth ddadansoddi data’r ymatebion, dywedodd **40** o’r ymatebwyr eu bod yn byw yn Ward Ynysowen [5]

Wrth ddadansoddi oedran yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr Arolwg o’r Ward hon, canfuwyd y canlynol:




Sut mae’r gyfradd ymateb hon yn cymharu â’r gyfradd ymateb gyfartalog a gyfrifwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol?

| | 0-15 | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75-84 | 85+ | Gwell ganddynt beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynysowen | 3 | 2 | 6 | 6 | 10 | 7 | 5 | 0 | 0 | 1 |
| Cyfartaledd a gofnodwyd | 3.72 | 2.9 | 8.18 | 13.63 | 11.63 | 10.09 | 5.9 | 2 | 0.5 | - |

Gan edrych ar y cyfraddau ymateb yn ôl grŵp oedran, gallwn gymharu'r rhain yn erbyn y gyfradd ymateb gyffredinol i nodi unrhyw feysydd y gellid eu datblygu ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu’r dyfodol. Yn seiliedig ar y data a gadarnhawyd ar gyfer **Ward Ynysowen,** roedd cyfradd ymateb yr ystod **35-45 oed** ddim ond hanner y gyfradd gyfartalog a gofnodwyd ar draws holl wardiau’r Fwrdeistref Sirol.

[5] Ni ellir cymhwyso'r nifer hwn yn llawn gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis peidio â nodi ym mha ward yr oeddent yn byw wrth gwblhau eu hymateb.

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Ynysowen eu bod yn hoffi orau am Ferthyr Tudful?

Wrth ddadansoddi’r adborth a gafwyd gan drigolion Ward **Ynysowen**, gellid nodi cwpl o osodiadau allweddol yn eu hadborth a oedd yn dangos yr hyn roeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned. Dyma nhw:



Y bobl ac ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol



Mynediad da i gyfleusterau megis siopau, cymorth meddygol a gweithgareddau




Ei chefn gwlad a’i hardaloedd gwyrdd, ei mannau agored a’i mynediad i natur



Cyfoeth y dref o ran ei hanes, ei threftadaeth, ei chelfyddydau a’i diwylliant

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Ynysowen yr hoffent ei newid?





| | |
|---|---|
| A | Gwella’r gwasanaeth bws i ddiwallu’r angen yn well **(12.5%)** |
| B | Mynd i’r afael â materion diogelwch y gymuned (e.e.) cyffuriau, gyrru'n beryglus, a chael plismona mwy gweladwy **(12.5%)** |
| C | Diogelu ein hamgylchedd a mynd i’r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon **(2.5%)** |
| D | Gwella llif y traffig, cyflwr y ffyrdd ac ati **(15%)** |
| E | Cyfathrebu’n gliriach â phreswylwyr (ac nid yn ddigidol yn unig) **(5%)** |
| F | Darparu cefnogaeth, cyngor a hyfforddiant i gael mynediad at waith **(5%)** |
| G | Gwella cyfleusterau hamdden yn y Fwrdeistref Sirol ac ailagor y pwll yn Rhydycar **(17.5%)** |
| H | Mwy o glybiau ieuenctid/cyfleusterau i blant, pobl ifanc a theuluoedd **(5%)** |
| I | Moderneiddio Canol y Dref; denu buddsoddiad a chefnogi busnesau lleol **(25%)** |
| J | Defnyddio adeiladau gwag ar gyfer tai/cyfleusterau cymunedol **(5%)** |
| K | Mynd i’r afael â pharcio a phroblemau sy’n ymwneud â pharcio **(12.5%)** |
| L | Hyrwyddo nodweddion cadarnhaol Merthyr Tudful (e.e.) treftadaeth a chyfleusterau, i fynd i’r afael ag argraffiadau negyddol o’r dref **(7.5%)** |

Dyma'r meysydd allweddol oedd trigolion Ward **Ynysowen** am eu newid, ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| **Gwella cyfleusterau ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys cymorth i gyflogaeth** | **Gwella trafnidiaeth gyhoeddus** |
|---|---|
| • "Mae angen mwy o gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer ein cenhedlaeth iau. Ers cryn amser, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio buddsoddiad ar Gaerdydd a choridor yr M4 ar draul cymunedau'r Cymoedd fel Merthyr. Ni ddylai pobl orfod teithio i Gaerdydd i gael swydd. Dewch â'r swyddi yn ôl i Ferthyr".<br>• "Does unman i fynd am bryd o fwyd gyda lle i blant chwarae. Flynyddoedd yn ôl, roedd gennyn ni Charlie Chalks a oedd yn anhygoel = yr agosaf yw Aberdâr. Does dim atyniad (e.e.) parc thema, Gŵyl y Gaeaf ac ati oni bai eich bod yn gyrru milltiroedd (neu hyd yn oed i Loegr)".<br>• "Ailgychwynnwch y digwyddiadau teuluol oedd arfer digwydd flynyddoedd yn ôl. Roedd arfer bod mwy i'r ieuenctid ei wneud hefyd". | • "O safbwynt y dref, rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol cael gwell cysylltiadau rhwng pentrefi, ond gall hyn fod yn heriol gyda'r gwasanaeth bws mor wael. Symudais i Ferthyr o RhCT ac nid oedd hanner cymaint o broblemau yno".<br>• "Mae angen gwella teithiau am nad yw trafnidiaeth gyhoeddus yn ddibynadwy nac yn rhedeg ar oriau all helpu pobl i gyrraedd eu gwaith, yn enwedig o waelod y cwm".<br>• "Nid yw'r cludiant lleol yn dda, a chyfyngwyd pobl o ran y lleoedd y gallant fynd. Mae cludiant yn y nos yn arbennig o wael". |
| **Mwy o blismona a'r angen i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol** | **Gwella gwasanaethau hamdden yn y Fwrdeistref Sirol** |
| • "Lefel y troseddau yn enwedig nifer y jantwyr sydd wedi achosi nifer uchel o farwolaethau. Mae camerâu cyflymder wedi'u lleoli yn y mannau anghywir ac mae angen mwy o blismyn yn cerdded y strydoedd (mae'r ffordd sy'n rhedeg ochr yn ochr â Choleg Merthyr yn cael ei thrin fel trac rasio ar gyfer jantwyr – bydd damwain bownd o ddigwydd yno)".<br>• "Dylid gweithredu mesurau llym yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol a chefnogi canol y dref i ffynnu eto".<br>• "Mae llawer o bobl hŷn yn mynd allan i siopa'n gynharach ac mae fy mam-gu yn poeni am fynd i'r dref rhag ofn iddi ddod ar draws unrhyw drafferth yno. Rwy'n meddwl bod angen help arni i deimlo'n ddiogel gan na allaf bob amser fynd i'r dref gyda hi pan wyf yn yr ysgol". | • "Gwellwch y cyfleusterau hamdden. Mae'r prif bwll dal ar gau ac nid yw hynny'n dderbyniol".<br>• "Mae gennym lai o fynediad i wasanaethau hamdden o'i gymharu â blynyddoedd yn ôl ac ar ben y cwbl, rydyn ni wedi colli pwll nofio. Rydyn ni'n talu'r un dreth y pen ond dydyn ni ddim yn cael yr hyn rydyn ni'n talu amdano".<br>• "Rwy'n meddwl bod y ganolfan chwaraeon wedi gwaethygu ers iddi gael ei rhedeg gan yr ymddiriedolaeth, felly rwy'n meddwl y dylai'r Cyngor ei chymryd yn ôl". |

## Beth oedd ymatebwyr Ynysowen yn teimlo bod angen i'r Arweinwyr ei glywed?




| | |
|---|---|
| **A** | Mynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol (e.e.) cyffuriau, gyrru'n beryglus a chael plismona mwy gweladwy **(12.5%)** |
| **B** | Mwy o glybiau ieuenctid/cyfleusterau i blant, pobl ifanc a theuluoedd **(10%)** |
| **C** | Darparu cefnogaeth i bawb (gan gynnwys y rhai mewn gwaith) ynghylch yr argyfwng costau byw **(12.5%)** |
| **D** | Pob Cynghorydd i gydweithio'n well i leihau biwrocratiaeth, canolbwyntio ar flaenoriaethau a darparu gwasanaethau cyfartal ar draws pob ward **(12.5%)** |
| **E** | Cyfleu negeseuon allweddol yn glir, gwrando ar bobl a bod yn agored i awgrymiadau **(17.5%)** |
| **F** | Buddsoddi/moderneiddio Canol y Dref i ddenu ymwelwyr a hybu'r economi leol **(10%)** |
| **G** | Adfywio adeiladau gwag i ddod â nhw yn ôl i ddefnydd ar gyfer tai/ cyfleusterau cymunedol **(2.5%)** |
| **H** | Diogelu ein hamgylchedd drwy fynd i'r afael â sbwriel, tipio anghyfreithlon **(2.5%)** |
| **I** | Gwella cyfleusterau hamdden ac ailagor y pwll nofio **(5%)** |


Dyma'r materion allweddol oedd trigolion Ward **Ynysowen** am eu hamlygu i'r Arweinwyr ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| Dylai pob Cynghorydd gydweithio'n well i leihau biwrocratiaeth, canolbwyntio ar flaenoriaethau, a darparu gwasanaethau cyfartal ar draws pob ward | Mynd i'r afael â materion diogelwch y gymuned (e.e.) cyffuriau a gyrru'n beryglus, a chael plismona mwy gweladwy |
|---|---|
| • "Rhaid iddyn nhw (y Cynghorwyr) i gyd uno a gweithio tuag at wneud Bwrdeistref Merthyr yn ei CHYFANRWYDD y lle gorau yng Nghymru".<br>• "Yr unig ffordd o gyflawni gwelliannau yw i Gynghorwyr weithio gyda'i gilydd beth bynnag fo'u plaid, er lles Merthyr".<br>• "Rwy'n deall bod tensiynau gwleidyddol yn codi wrth i wahanol bleidiau wrthwynebu'i gilydd (ac mae pob agwedd ar fywyd yn meddu ar ei densiynau ei hun), ond er mwyn Merthyr, dwi'n meddwl bod angen cadw'r ffocws ar beth sydd orau i'r dref a'i phobl, ac nid ar bwy sy'n ennill dadleuon". | • "(Dylid mynd i'r afael â) lefel troseddau yn enwedig y jantwyr sydd wedi achosi nifer uchel o farwolaethau".<br>• "Dylid gweithredu mesurau llym yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol a chefnogi Canol y Dref i ffynnu eto".<br>• "Gall Canol y Dref deimlo'n anniogel i gerdded drwyddo liw dydd a nos. Mae angen i ni weld cynnydd ym mhresenoldeb yr heddlu".<br>• "Mae achosion o aflonyddwch yn digwydd yn aml yn y Dref a gall hynny fod ychydig yn frawychus, ac felly rwy'n meddwl bod angen i'r Heddlu fod LLAWER mwy gweladwy". |

# DATBLYGU’R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL




Dywedodd plant a phobl ifanc (0-24 oed) eu bod am i’r Cyngor:

|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| Mynd i’r afael â materion diogelwch y gymuned a chael mwy o Heddlu | Cyfathrebu’n gliriach, gwrando a rhoi mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan | Darparu mwy o gyfleusterau/ gweithgareddau i blant, pobl ifanc a theuluoedd | Diogelu ein hamgylchedd – mynd i’r afael â thipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel a meddwl am newid hinsawdd | Gwella’r gwasanaeth bws i’w wneud yn fwy dibynadwy |



Dywedodd pobl o oedran gweithio (25-54 oed) eu bod am i’r Cyngor:

|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| Moderneiddio Canol y Dref a chefnogi/datblygu busnesau lleol | Mynd i’r afael â materion diogelwch y gymuned a chael mwy o Heddlu | Gwella cyfleusterau hamdden ac ailagor y pwll nofio | Gwella’r gwasanaeth bws i’w wneud yn fwy dibynadwy | Cyfathrebu’n gliriach, gwrando a rhoi mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan |



Dywedodd pobl hŷn (55+ oed) eu bod am i’r Cyngor:


|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu’n gliriach, gwrando a rhoi mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan | Gwarchod a hyrwyddo treftadaeth Merthyr Tudful | Mynd i’r afael â materion diogelwch y gymuned a chael mwy o Heddlu | Gwella’r gwasanaeth bws i’w wneud yn fwy dibynadwy | Diogelu ein hamgylchedd rhag newid hinsawdd – mynd i’r afael â thipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel |

## Ymgysylltu â phobl o: Ward y Parc

Wrth ddadansoddi data’r ymatebion, dywedodd **53** o’r ymatebwyr eu bod yn byw yn Ward y Parc [6]

Wrth ddadansoddi oedran yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr Arolwg o’r Ward hon, canfuwyd y canlynol:




Sut mae’r gyfradd ymateb hon yn cymharu â’r gyfradd ymateb gyfartalog a gyfrifwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol?

| | 0-15 | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75-84 | 85+ | Gwell ganddynt beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Parc | 3 | 2 | 2 | 10 | **20** | 10 | 3 | 2 | 0 | 1 |
| Cyfartaledd a gofnodwyd | 3.72 | 2.9 | 8.18 | 13.63 | **11.63** | 10.09 | 5.9 | 2 | 0.5 | - |

Gan edrych ar y cyfraddau ymateb yn ôl grŵp oedran, gallwn gymharu'r rhain yn erbyn y gyfradd ymateb gyffredinol i nodi unrhyw feysydd y gellid eu datblygu ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu’r dyfodol. Yn seiliedig ar y data a gadarnhawyd ar gyfer **Ward y Parc,** yr ystod oedran sydd â'r gyfradd ymateb uchaf yw’r preswylwyr rhwng **45 a 54 oed** – ac roedd hyn **bron ddwywaith y gyfradd gyfartalog** a gofnodwyd ar draws holl wardiau'r Fwrdeistref Sirol.

[6] Ni ellir cymhwyso'r nifer hwn yn llawn gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis peidio â nodi ym mha ward yr oeddent yn byw wrth gwblhau eu hymateb.

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward y Parc eu bod yn hoffi orau am Ferthyr Tudful?

Wrth ddadansoddi'r adborth a gafwyd gan drigolion Ward **y Parc**, gellid nodi cwpl o osodiadau allweddol yn eu hadborth a oedd yn dangos yr hyn roeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned. Dyma nhw:



Ei chefn gwlad a'i hardaloedd gwyrdd, ei mannau agored a'i mynediad i natur



Y bobl a'r ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol




Hanes a threftadaeth y dref – rhywbeth i fod yn falch ohono



Mynediad da i gyfleusterau megis siopau, cymorth meddygol a gweithgareddau

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward y Parc yr hoffent ei newid?





| | |
|---|---|
| **A** | Gwella'r gwasanaeth bws i wneud iddo weithio i bobl **(13.20%)** |
| **B** | Darparu cymorth i bobl fregus (gan gynnwys tai a'r digartref) a gwella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol **(5.66%)** |
| **C** | Diogelu a chadw ein treftadaeth; adfywio ac ailddefnyddio adeiladau **(13.20%)** |
| **D** | Darparu mwy o weithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc **(5.66%)** |
| **E** | Hyrwyddo'r agweddau cadarnhaol yn well – y celfyddydau a diwylliant, straeon newyddion da (gan gynnwys cerddoriaeth mewn ysgolion) **(5.66%)** |
| **F** | Moderneiddio Canol y Dref a chefnogi busnesau; gwella siopau ac annog buddsoddiad newydd a chyflogaeth sy'n talu'n well **(16.98%)** |
| **G** | Gofalu am ein hamgylchedd ac edrych i'r dyfodol (technolegau gwyrdd ac ati) **(9.43%)** |
| **H** | Cefnogi pobl mewn tlodi i ymdopi â'r argyfwng costau byw **(3.77%)** |
| **I** | Gwella'r parcio, y cynllun traffig a'r goleuadau stryd a chreu llwybrau hygyrch **(7.54%)** |
| **J** | Gwrando ar bobl, edrych tuag allan a dysgu gwersi o leoedd eraill - bod yn uchelgeisiol **(1.88%)** |
| **K** | Gwella gwasanaethau hamdden ac ailagor y pwll nofio **(15.09%)** |
| **L** | Plismona mwy gweladwy i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r defnydd o gyffuriau (yn enwedig yng Nghanol y Dref) **(22.64%)** |

## DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL

Dyma'r meysydd allweddol oedd trigolion Ward **y Parc** am eu newid, ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| Plismona mwy gweladwy i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r defnydd o gyffuriau (yn enwedig yng Nghanol y Dref) | Moderneiddio Canol y Dref a chefnogi busnesau, gwella siopau ac annog cyflogaeth sy'n talu'n well |
|---|---|
| • "Mae angen mwy o heddlu, yn enwedig yng Nghanol y Dref".<br>• "Dim digon o heddlu'n bresennol o gwmpas y dref ac mae'r bordau ar yr hen orsaf fysiau yn ddolur llygad enfawr".<br>• "Mae ymddygiad iobaidd yn atal pobl rhag mynd i Ganol y Dref - nid plant sydd o reidrwydd yn achosi hyn ond y rhai sy'n yfed liw dydd. Gan fod cymaint o arian yn cael ei wario ar wella Canol y Dref, rwy'n meddwl y byddai datrys y problemau hyn yn help mawr".<br>• "(Mae angen) mwy o heddlu'n bresennol i helpu i atal troseddau".<br>• "(Byddwn yn newid) lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a cherbydau'n goryrru o amgylch Canol y Dref".<br>• "(Yr hyn sydd ei angen arnom yw) mwy o heddlu'n bresennol ar y strydoedd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol". | • "Y pethau y byddwn i'n eu newid yw'r ardaloedd siopa. Does gan Ganol y Dref ddim byd i'w gynnig heblaw am Fanciau, Barbwyr ac ati. Nid oes unrhyw atyniad yng Nghanol y Dref, dim rheswm i fynd yno ond mae'r ardaloedd cyfagos yn brydferth ac yn wych i ymwelwyr".<br>• "(Mae angen) buddsoddiad yng Nghanol y Dref i agor mwy o siopau ac i wneud yn siŵr bod ein treftadaeth hanesyddol ar gael i bawb ei gweld".<br>• "Rydyn ni'n rhedeg busnes bach a arferai fod ar agor 7 diwrnod yr wythnos, ond ni allwn fforddio ei gadw ar agor gymaint â hynny nawr oherwydd y cynnydd yng nghostau ynni. Pe bai unrhyw ffordd y gallem ostwng y rhain neu unrhyw orbenion eraill (e.e.) ardrethi busnes, byddem yn bendant yn gwneud hynny".<br>• "Dydw i ddim yn gwybod a yw hyn yn rhywbeth y gallech chi ei newid ond rwy'n meddwl y byddai'n wych pe bai yna siop atgyweirio ym Merthyr tebyg i'r un ar y rhaglen deledu honno".<br>• "Mae'r stryd fawr yn wag. Mae'n dda cael y parciau manwerthu ond mae Canol y Dref ei hun yn edrych yn druenus. Dim byd tebyg i'r hyn yr oedd 25 mlynedd yn ôl yn ystod fy mhlentyndod". |
| **Gwella'r gwasanaethau hamdden ac ailagor y pwll nofio** | **Gwella'r gwasanaeth bws a gwneud iddo weithio i'r bobl** |
| • "Byddwn i wrth fy modd pe bai'r Ganolfan Hamdden yn ailagor gan fy mod wedi colli hynny'n fawr".<br>• "(Byddwn yn datrys) y diffyg cyfleusterau (pwll nofio ac ati)".<br>• "Mae'r Ganolfan Hamdden yn dipyn o drychineb ar hyn o bryd. Mae'r pwll wedi bod ar gau ers oesoedd. Roedd llifogydd yno pan gawsom ni law trwm, a phan ddefnyddiais i'r ystafelloedd newid, roedd lefel yr hylendid yn isel iawn yno. Bellach, rwy'n mynd i'r ganolfan yn Aberdâr ond fe hoffwn i ddefnyddio'r un ym Merthyr ond byddai'n rhaid i'r safonau yno wella. Petai modd gwneud hynny, byddai gennych chi gwsmer ychwanegol". | • "(Rhoi trefn ar) drafnidiaeth gyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae'n amhosib cynllunio teithiau neu hyd yn oed deithio i'r gwaith oherwydd bod y gwasanaeth bws yn cael ei ganslo byth a hefyd."<br>• "Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy a dibynadwy – yn enwedig gyda'r hwyr".<br>• "Mae angen gwell gwasanaethau i fynd o gwmpas Merthyr – gwnewch y gwasanaeth bws yn fwy dibynadwy gan na fydd pobl yn gallu fforddio rhedeg eu ceir cyn bo hir a bydd angen trafnidiaeth gyhoeddus i fynd â nhw i'r gwaith ac yn ôl".<br>• "Cysylltiadau trafnidiaeth ... gwael iawn!". |

## Beth oedd ymatebwyr y Parc yn teimlo bod angen i'r Arweinwyr ei glywed?




| | |
|---|---|
| A | Diogelu a chadw ein treftadaeth, celfyddydau a diwylliant **(9.43%)** |
| B | Gweithio'n agosach gyda phobl leol a gwrando arnynt, ymgysylltu â nhw a'u cynnwys (ac nid yn ddigidol yn unig) **(30.18%)** |
| C | Mynd i'r afael â throseddau (e.e.) YGG, gyrwyr peryglus ac ati **(7.54%)** |
| D | Gwella'r siopau ac ehangu'r ddarpariaeth fanwerthu ar draws y Fwrdeistref Sirol gyfan; annog mewnfuddsoddiad a swyddi sy'n talu'n well **(15.09%)** |
| E | Gwella deilliannau addysgol i bobl ifanc **(3.77%)** |
| F | Gwella gwasanaethau chwaraeon a hamdden ac ailagor y pwll nofio **(15.09%)** |
| G | Diogelu ein hamgylchedd a'i gadw'n lân; chwarae rôl arweiniol wrth symud tuag at "ddyfodol gwyrdd" **(11.32%)** |
| H | Gwella'r gwasanaeth bws **(1.88%)** |
| I | Edrych ar ailstrwythuro'r seilwaith traffig i'w wneud yn fwy effeithiol **(3.77%)** |

Dyma'r materion allweddol oedd trigolion Ward **y Parc** am eu hamlygu i'r Arweinwyr ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| Gweithio'n agosach gyda phobl leol a gwrando arnynt, ymgysylltu â nhw a'u cynnwys (ac nid yn ddigidol yn unig) | Gwella'r siopau ac ehangu'r ddarpariaeth fanwerthu ar draws y Fwrdeistref Sirol gyfan; annog mewnfuddsoddiad a swyddi sy'n talu'n well |
|---|---|
| • "Gweithio gyda phobl Merthyr yn iawn, a gwrando ar yr hyn sydd ganddyn nhw i'w ddweud".<br><br>• "Rwy'n meddwl pe bai'r rheolwyr yn cymryd yr amser i weithio gyda phobl leol yn gynnar yn y broses gynllunio, efallai y byddwn yn cael canlyniadau gwell ac yn lleihau rhywfaint o'r feirniadaeth y mae'r dref yn ei chael - wrth hyn nid wy'n golygu arolygon ar-lein yn unig, ond pethau fel cyfarfodydd yn Neuadd y Dref neu weithdai dwys - mae yna gyfoeth o allu meddyliol yn yr ardal sydd ddim yn cael ei ddefnyddio". | • "Er mwyn denu ymwelwyr i Ferthyr, ac i gadw teyrngarwch y trigolion, mae'n rhaid iddyn nhw gynnig profiad cyfartal neu well. Mae pobl yn teithio i Aberdâr, Pontypridd ac ati i ddefnyddio cyfleusterau hamdden, siopau ac ati oherwydd y cyflwr gwael a'r gost uchel o ddefnyddio'r ychydig opsiynau a gynigir gan Ferthyr. Pan fydd pobl yn teithio am un peth, maen nhw wedyn yn fwy tebygol o aros yno, a gwario mwy o arian gyda busnesau eraill, ac ati."<br><br>• "Mae'r holl swyddi rwy'n dueddol o sylwi arnyn nhw i'w gweld mewn caffis, bariau a thafarndai ond rwy'i eisiau gweithio mewn meysydd eraill, a dydw i ddim yn gwybod a yw hynny'n rhywbeth sydd ar gael yn lleol. |

- “Mae gan CBSMT reolaeth fawr dros yr arian sy’n cael ei wario ac ar ddatblygiad y Fwrdeistref. Mae angen gwella perfformiad y sefydliad, rhoi’r gorau i gynnig swyddi ar sail presenoldeb yn hytrach na gallu, atal nepotistiaeth, mynd i’r afael â rheolaeth gyllidebol wael, atal mân ladradau, bwlio a harasio a fyddai, gobeithio, yn gwella’r cyfraddau salwch”.

- “Mae angen iddyn nhw (y Cyngor) roi pobl y dref wrth galon eu penderfyniadau”.

Rwy’i ar fy mlwyddyn olaf yn y coleg ac rwy’n gwybod bod rhai o fy ffrindiau yn ystyried symud i fyw i Abertawe neu Gaerdydd oherwydd bod mwy o gyfleoedd yno o ran gwaith. Rwy’n caru Merthyr a dydw i ddim eisiau symud ond efallai y bydd hynny’n anochel. Pe bai’r rheolwyr yn gallu cyfeirio pobl at swyddi o wahanol fathau, rwy’n meddwl y byddai mwy yr un oed â mi yn ystyried aros”.

- “Mae’r dref yn dibynnu’n fawr ar ei phobl ac mae’r bobl yn dibynnu ar fusnesau lleol. Gall unrhyw gymorth ychwanegol a ddarperir i fusnesau lleol olygu eu bod nhw’n parhau ar agor ac yn rhoi arian ym mhocedi gweithwyr i’w wario’n lleol”.

## Mynd i’r afael â materion yn ymwneud â gwasanaethau hamdden a chwaraeon/gweithgareddau corfforol

- “Beth sy’n digwydd yn y Ganolfan Hamdden? Mae angen diweddariad ynghylch y pwll a’r caffi sydd ar gau. Mae angen mwy o gyfathrebu gan arweinwyr. Hyd yn oed os ydynt yn ofni cael eu beirniadu, o leiaf bydd pobl yn gwerthfawrogi cael gwybod am yr hyn sy’n digwydd”.
- “Rwy’n meddwl y dylai’r Cyngor gymryd rheolaeth o Gastell Cyfarthfa yn ôl, a rhoi trefn ar yr hyn sy’n digwydd yno. Mae’r Parc ei hun yn hyfryd, ond rwy’i wedi clywed bod y Castell yn dechrau dirywio a dyw’r Ymddiriedolaeth ddim yn gwybod sut i gael yr arian i’w atgyweirio”.
- “Mae chwaraeon yn bwysig, yn eich cadw chi’n heini ac yn rhywbeth y gallwch chi ei wneud gyda’ch ffrindiau. Dylid rhoi mwy o arian ar gyfer pethau’n ymwneud â phêl-droed, e.e. i’n helpu ni fynd i ymarferion”.
- “Mae’r Ganolfan Hamdden yn dipyn o drychineb ar hyn o bryd. Mae’r pwll wedi bod ar gau ers oesoedd. Roedd llifogydd pan gawsom ni law trwm a phan ddefnyddiais i’r ystafelloedd newid, roedd lefel yr hylendid yn isel iawn yno. Bellach, rwy’n mynd i’r ganolfan yn Aberdâr ond fe hoffwn i ddefnyddio’r un ym Merthyr ond byddai’n rhaid i’r safonau wella yno. Petai modd gwneud hynny, bydd gennych chi gwsmer ychwanegol”.

# DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL




Dywedodd plant a phobl ifanc (0-24 oed) eu bod am i'r Cyngor:

| | | | |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| Darparu mwy o gyfleusterau i blant, pobl ifanc a theuluoedd | Gwella gwasanaethau hamdden a gweithgareddau ym myd y campau | Gwrando ar bobl ifanc lleol a rhoi cyfleoedd iddynt gymryd rhan | Annog y gwasanaethau ieuenctid i ddarparu gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc |




Dywedodd pobl o oedran gweithio (25-54 oed) eu bod am i'r Cyngor:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| Moderneiddio Canol y Dref a chefnogi/datblygu busnesau lleol | Gwella gwasanaethau hamdden a gweithgareddau ym myd y campau | Gwrando ar bobl leol a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt gymryd rhan | Gwella diogelwch y gymuned a chyfleusterau yng Nghanol y Dref (e.e.) mynd i'r afael ag YGG; annog mwy o siopau | Diogelu ein mannau gwyrdd rhag sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn |



Dywedodd pobl hŷn (55+ oed) eu bod am i'r Cyngor:


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| Gwrando ar bobl leol a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt gymryd rhan | Cadw a gwarchod ein treftadaeth, ein celfyddydau a'n diwylliant | Gofalu am ein hamgylchedd – ei gadw'n lân ac yn rhydd o sbwriel/tipio anghyfreithlon | Moderneiddio Canol y Dref a chefnogi/datblygu busnesau lleol | Gwella diogelwch y gymuned a chyfleusterau yng Nghanol y Dref (e.e.) mynd i'r afael ag YGG; annog mwy o siopau |

## Ymgysylltu â phobl o: Ward Penydarren

Wrth ddadansoddi data'r ymatebion, dywedodd **71** o'r ymatebwyr eu bod yn byw yn Ward Penydarren [7]

Wrth ddadansoddi oedran yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr Arolwg o'r Ward hon, canfuwyd y canlynol:




Sut mae'r gyfradd ymateb hon yn cymharu â'r gyfradd ymateb gyfartalog a gyfrifwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol?

| | 0-15 | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75-84 | 85+ | Gwell ganddynt beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Penydarren | 2 | 0 | 15 | **24** | 13 | 7 | 7 | 3 | 0 | 0 |
| Cyfartaledd a gofnodwyd | 3.72 | 2.9 | 8.18 | **13.63** | 11.63 | 10.09 | 5.9 | 2 | 0.5 | - |

Yn seiliedig ar y data a gadarnhawyd ar gyfer **Ward Penydarren,** yr ystod oedran â'r gyfradd ymateb uchaf oedd o blith trigolion rhwng **35 a 44 oed** - mae hyn **bron ddwywaith y gyfradd gyfartalog a gofnodwyd ar draws holl wardiau'r Fwrdeistref Sirol**. Fodd bynnag, ni chafwyd **unrhyw ymatebion** gan bobl ifanc rhwng **16 a 24 oed** i'r Arolwg hwn; felly, bydd hynny'n effeithio ar y modd y dadansoddir y data a'r wybodaeth yng ngweddill y ddogfen.

[7] Ni ellir cymhwyso'r nifer hwn yn llawn gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis peidio â nodi ym mha ward yr oeddent yn byw wrth gwblhau eu hymateb.

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Penydarren eu bod yn hoffi orau am Ferthyr Tudful?

Wrth ddadansoddi'r adborth a gafwyd gan drigolion Ward **Penydarren**, gellid nodi cwpl o osodiadau allweddol yn eu hadborth a oedd yn dangos yr hyn roeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned. Dyma nhw:



Y bobl a'r ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol



Ei chefn gwlad a'i hardaloedd gwyrdd; ei mannau agored a'i mynediad i natur




Hanes a threftadaeth y dref – mae'n unigryw



Mynediad da i gyfleusterau megis siopau, cymorth meddygol a gweithgareddau

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Penydarren yr hoffent ei newid?





| | |
|---|---|
| A | Moderneiddio Canol y Dref (a darparu siopau cymunedol), denu mewnfuddsoddiad a chefnogi busnesau lleol **(21.12%)** |
| B | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus **(9.85%)** |
| C | Diogelu ein hamgylchedd rhag datblygiadau adeiladu a'i gadw'n lân ac yn rhydd o sbwriel, baw cŵn ac ati **(11.26%)** |
| D | Mynd i'r afael â llanast a sŵn sy'n deillio o waith ar yr A465 **(1.40%)** |
| E | Mynd i'r afael â phroblemau traffig a pharcio (yn enwedig o amgylch ysgolion) **(15.49%)** |
| F | Herio'r argraffiadau negyddol o Ferthyr Tudful **(7.04%)** |
| G | Mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â gwasanaethau hamdden ac ailagor y pwll nofio **(14.08%)** |
| H | Mwy o gyfleusterau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd (e.e.) iechyd a gofal cymdeithasol, meysydd chwarae a pharciau **(23.94%)** |
| I | Mynd i'r afael â throseddau (e.e.) ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyrru'n beryglus, cyffuriau, a chael plismona mwy gweladwy **(21.12%)** |
| J | Cynnwys preswylwyr yn fwy wrth gynllunio datblygiadau'r dyfodol **(2.81%)** |
| K | Diogelu'r adeiladau hynny sy'n rhan o'n treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol **(1.40%)** |
| L | Helpu pobl o bob oed i gael gwaith **(1.40%)** |

# DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL

Dyma'r meysydd allweddol oedd trigolion Ward **Penydarren** am eu newid, ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| Mwy o gyfleusterau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd (e.e.) iechyd a gofal cymdeithasol, meysydd chwarae a pharciau | Moderneiddio Canol y Dref (a siopau cymunedol), denu mewnfuddsoddiad a chefnogi busnesau lleol |
|---|---|
| • "Parciau i blant (sef y parc ar waelod Heol Greigiog a datblygiad yr ardal werdd honno)".<br>• "Mae angen mwy o barciau i'r rhai bach ac mae angen rhywbeth i'r plant hŷn (11 oed a throsodd) i'w wneud. Nid yw pawb eisiau cymryd rhan mewn chwaraeon ac ati, felly byddai'n help enfawr petai yna le iddynt hwythau gymdeithasu neu fynegi'u hunain yn ddiogel. Mae angen lle i ofalwyr gael seibiant a bod yn blentyn am 1 awr".<br>• "Meysydd chwarae mwy cynhwysol i bob plentyn. Angen gosod dŵr yn y pwll er mwyn i'r plant ddysgu nofio".<br>• "Mae'n debyg ei fod yn amhosibl ond byddai cynnig mwy o gefnogaeth i ofal cymdeithasol yn gwneud gwahaniaeth i bobl o bob oed". | • "Mae Canol y Dref yn ddigalon iawn ac mae angen ei adfywio. Angen moderneiddio. Mwy o fannau cymdeithasol. Yn llawn siopau bwyd brys, siopau betio, siopau ffôn ac unedau gwag".<br>• "Mae angen gwell siopau – does dim amrywiaeth yng Nghanol y Dref nac yn y Parc Manwerthu".<br>• "Mae'n ymddangos bod y Stryd Fawr yn marw. Gallai ardrethi is ar siopau yng Nghanol y Dref sbarduno'r ardal – gallem weld busnesau bach newydd yn cael cyfle i oroesi ac ailsefydlu'r stryd fawr".<br>• "Mae pawb eisiau i Ferthyr fod yn fywiog ac yn brysur ond mae hynny'n anoddach am fod yr holl swyddi yn y diwydiant manwerthu neu wasanaethu – mae angen swyddi o ansawdd gwell sy'n talu mwy ac yn rhoi hwb i'r economi leol".<br>• "Mae angen mwy o fusnesau yn y dref i'w gwneud yn ferw o brysurdeb unwaith eto". |
| **Mynd i'r afael â throseddau (e.e.) ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau a gyrru'n beryglus, a chael plismona mwy gweladwy** | |
| • "Ewch ati i leihau lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y Fwrdeistref Sirol".<br>• "Rydyn ni angen mwy o blismona ar ein stadau yn ogystal ag yng Nghanol y Dref".<br>• "Ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghanol y Dref, y ceir yn rasio rownd bob nos (mae angen taclo hyn)".<br>• "Mae angen gweld mwy o'r heddlu er mwyn atal troseddau a'r holl yrwyr gwirion sy'n defnyddio Merthyr fel trac rasio".<br>• "Mae cyffuriau wastad yn mynd i fod yn broblem yng Nghanol y Dref. Yn anffodus, mae yna bobl sy'n amlwg dan ddylanwad cyffuriau i'w gweld yn aml yn y dref liw dydd a nos". | |

**Beth oedd ymatebwyr ym Mhenydarren yn teimlo bod angen i’r Arweinwyr ei glywed?**




| | |
|---|---|
| **A** | Moderneiddio ac adfywio Canol y Dref, cefnogi busnesau lleol a manteisio ar gyfleoedd i gyflwyno swyddi sy’n talu’n well **(9.85%)** |
| **B** | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus i ddiwallu anghenion y gymuned **(5.63%)** |
| **C** | Gwella ein seilwaith priffyrdd a thrafnidiaeth **(2.81%)** |
| **D** | Gwrando ar bobl leol a'u cynnwys yn fwy; cyfathrebu’n glir ac yn amserol; a gwneud cyswllt trwy wahanol ddulliau - nid rhai digidol yn unig **(29.57%)** |
| **E** | Darparu cymorth a chefnogaeth i bobl ynghylch costau byw (e.e.) rhewi’r Dreth Gyngor **(11.26%)** |
| **F** | Diogelu ein hamgylchedd rhag datblygiadau adeiladau a glo brig, glanhau draeniau a chadw strydoedd yn glir o sbwriel a thipio anghyfreithlon **(9.85%)** |
| **G** | Buddsoddi mewn cyfleusterau i blant, pobl ifanc a’u teuluoedd **(5.63%)** |
| **H** | Taclo problemau’r gwasanaethau hamdden ac ailagor y pwll nofio **(5.63%)** |
| **I** | Mynd i’r afael â throseddau (cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyrru’n beryglus) **(11.26%)** |
| **J** | Darparu mwy o gymorth i blant a phobl ifanc ag anableddau/anghenion ychwanegol drwy addysg a gofal cymdeithasol **(4.22%)** |
| **K** | Hyrwyddo a diogelu enw da Merthyr Tudful yn fwy effeithiol **(2.81%)** |

Dyma’r materion allweddol oedd trigolion Ward **Penydarren** am eu hamlygu i’r Arweinwyr ynghyd â rhai o sylwadau’r ymatebwyr:

| **Gwrando ar bobl leol a’u cynnwys yn fwy, cyfathrebu’n glir ac yn amserol, a gwneud cyswllt trwy wahanol ddulliau – nid rhai digidol yn unig** | **Darparu cymorth a chefnogaeth i bobl o amgylch yr argyfwng costau byw (e.e.) rhewi’r Dreth Gyngor** |
|---|---|
| • “Gwrandewch fwy ar y gymuned. Hefyd, nid oes gan bawb fynediad at wasanaethau ar-lein - mae angen gwella’r modd y cyfathrebir”.<br><br>• “Rwy’n meddwl bod angen i fuddsoddi yn y dref barhau, ond gyda phroblemau costau byw, rwy’n gwybod y bydd hynny’n mynd yn fwy anodd. Rwy’n meddwl y byddai pobl yn fodlon gweithio gyda’r Cyngor pe baen nhw’n cael y cyfle, ond nid yw’n ymddangos bod cynifer â hynny o gyfleoedd – mae adegau pan welwch yr hyn y mae’r Cyngor yn ei wneud ac yn meddwl ’pam wnaethon nhw’r fath gamgymeriad?’ Mae pobl yn dweud wrthyn nhw’r hyn maen nhw ei eisiau, ond dydyn nhw ddim yn | • “Rwy’n gweld Tai, ac yn fwy penodol digartrefedd, fel mater o’r pwys mwyaf - yn enwedig os yw’r cynnydd mewn costau byw yn parhau gan y bydd hyn yn effeithio ar allu pobl i dalu rhenti neu forgais. Mae lefelau uchel o ddigartrefedd ym Merthyr fel y mae, ond gall y sefyllfa hon waethygu i lawer o deuluoedd na fyddent byth wedi credu y byddent yn wynebu’r fath her gwta 12 mis yn ôl”.<br>• “Rwy’n meddwl bod angen i fuddsoddi yn y dref barhau, ond gyda phroblemau costau byw, rwy’n gwybod y bydd hynny’n mynd yn fwy anodd. Rwy’n meddwl y byddai pobl yn fodlon gweithio gyda’r Cyngor pe |

gwrando – pe bai modd mynd i'r afael â hyn, efallai y ceir canlyniadau gwell i bawb".

- "Gwrandewch fwy ar y gymuned. Hefyd, gan nad yw pawb yn meddu ar fynediad ar-lein, mae angen gwella'r modd y cyfathrebir".
- "Rwy'n meddwl y byddai pobl yn fodlon gweithio gyda'r Cyngor pe baen nhw'n cael y cyfle, ond nid yw'n ymddangos bod cynifer â hynny o gyfleoedd – mae adegau pan welwch yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ac yn meddwl 'pam wnaethon nhw'r fath gamgymeriad?' Mae pobl yn dweud wrthyn nhw'r hyn maen nhw ei eisiau, ond dydyn nhw ddim yn gwrando – pe bai modd mynd i'r afael â hyn, efallai y ceir canlyniadau gwell i bawb".

baen nhw'n cael y cyfle, ond nid yw'n ymddangos bod cynifer â hynny o gyfleoedd – mae adegau pan welwch yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ac yn meddwl 'pam wnaethon nhw'r fath gamgymeriad?' Mae pobl yn dweud wrthyn nhw'r hyn maen nhw ei eisiau, ond dydyn nhw ddim yn gwrando – pe bai modd mynd i'r afael â hyn, efallai y ceir canlyniadau gwell i bawb".

- "Meddyliwch am rewi'r Dreth Gyngor a gwnewch rywbeth am ardrethi busnes – mae effaith y wasgfa ariannol hon yn aruthrol ac mae'r Cyngor yn ymddangos yn eithaf tawel am y peth. Hefyd, dylid rhoi cymorth costau byw i weithwyr llawn-amser, nid dim ond pobl sydd â hawl i Gredyd Cynhwysol".

**Mynd i'r afael â throseddau (cyffuriau, gyrru'n beryglus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol – yn enwedig yng Nghanol y Dref)**

- "Mae angen atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r rebels rasio. Nid oes heddlu yn yr ardal - am beth ydyn ni'n talu nhw – dy'n nhw byth i'w gweld. Efallai y dylent rasio'u ceir y tu allan i orsaf yr heddlu!!!"
- "Rwy'n teimlo bod angen iddyn nhw sylweddoli bod yna nifer o broblemau yn yr ardal, gyda chyffuriau yn rhan o'r broblem. Mae hyn yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol".
- "Dw i'n meddwl bod angen i'r Heddlu gael presenoldeb llawer mwy gweladwy. Dwi ddim yn sôn am ddiffyg plismyn ar ein strydoedd ond yn hytrach y ffaith eu bod nhw ond yn ymddangos pan fo digwyddiad. Arhosodd fy nghymydog am 11 awr am blismon pan dorrwyd ei ffenest gan feddwon a hynny ar ôl galw'r gwasanaeth 101 - mae hynny'n druenus".
- "Mae angen gweithredu i atal baw cŵn; mae gyrwyr peryglus ar ein strydoedd yn ddychryn, ac mae goleuadau stryd sy'n diffodd yn ystod y nos yn anniogel".
- "(Mae angen i chi gael) gwell negeseuon diogelwch ar gyfer y gymuned – maen nhw naill ai'n rhy hwyr neu ar gael ar gyfryngau cymdeithasol yn unig ac mae llawer o bobl ddim yn dilyn y Cyngor ar-lein, felly maen nhw'n colli allan".

# DATBLYGU’R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL




Dywedodd plant a phobl ifanc (0-24 oed) eu bod am i’r Cyngor:

|  |  |
|---|---|
| Ychwanegu mwy o bethau y gall pobl ifanc eu gwneud yn ystod yr wythnos | Meddwl am hygyrchedd lleoedd – ni all pobl fynd i mewn i rai adeiladau yn hawdd mewn cadair olwyn |





Dywedodd pobl o oedran gweithio (25-54 oed) eu bod am i’r Cyngor:

|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| Gwrando’n fwy astud ar y gymuned a chynnwys pobl cyn i benderfyniadau gael eu gwneud | Darparu mwy o gyfleusterau i blant, pobl ifanc a’u teuluoedd | Mae angen adolygu gwasanaethau hamdden – mae prinder ohonynt yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl | Moderneiddio ac adfywio Canol y Dref; cefnogi busnesau lleol a chyflwyno swyddi sy’n talu’n well | Mae angen mynd i’r afael â pharcio a gwella trafnidiaeth gyhoeddus |



Dywedodd pobl hŷn (55+ oed) eu bod am i’r Cyngor:


|  |  |  |  |   |
|---|---|---|---|---|
| Mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyrru peryglus: gyda’r Heddlu yn LLAWER mwy gweladwy | Cymryd amser i wrando ar breswylwyr – mae gennym lawer o brofiad i’w rannu | Moderneiddio ac adfywio Canol y Dref, cefnogi busnesau lleol a chyflwyno swyddi sy’n talu’n well | Gwneud gwelliannau ar gyfer plant a phobl ifanc – meysydd chwarae lle bo angen (e.e.) Clos y Blanhigfa | Helpu pobl i ymdopi ag effeithiau’r argyfwng costau byw |

## Ymgysylltu â phobl o: **Ward Plymouth**




Wrth ddadansoddi data’r ymatebion, dywedodd **55** o’r ymatebwyr eu bod yn byw yn Ward Plymouth [8]

Wrth ddadansoddi oedran yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr Arolwg o’r Ward hon, canfuwyd y canlynol:




Sut mae’r gyfradd ymateb hon yn cymharu â’r gyfradd ymateb gyfartalog a gyfrifwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol?

| | 0-15 | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75-84 | 85+ | Gwell ganddynt beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plymouth | 5 | 2 | 9 | 17 | 9 | 7 | 4 | 0 | 2 | 0 |
| Cyfartaledd a gofnodwyd | 3.72 | 2.9 | 8.18 | 13.63 | 11.63 | 10.09 | 5.9 | 2 | 0.5 | - |

Gan edrych ar y cyfraddau ymateb yn ôl grŵp oedran, gallwn gymharu'r rhain yn erbyn y gyfradd ymateb gyffredinol i nodi unrhyw feysydd y gellid eu datblygu ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu’r dyfodol. Yn seiliedig ar y data a gadarnhawyd ar gyfer **Ward Plymouth,** yr ystod oedran sydd â'r gyfradd ymateb uchaf yw’r preswylwyr rhwng **0 a 15 oed** – ac roedd hyn **bron ddwywaith** y gyfradd gyfartalog a gofnodwyd ar draws holl wardiau'r Fwrdeistref Sirol.

[8] Ni ellir cymhwyso'r nifer hwn yn llawn gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis peidio â nodi ym mha ward yr oeddent yn byw wrth gwblhau eu hymateb.

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Plymouth eu bod yn hoffi orau am Ferthyr Tudful?

Wrth ddadansoddi'r adborth a gafwyd gan drigolion Ward **Plymouth**, gellid nodi cwpl o osodiadau allweddol yn eu hadborth a oedd yn dangos yr hyn roeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned. Dyma nhw:



Y bobl ac ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol



Ei chefn gwlad a'i hardaloedd gwyrdd, ei mannau agored a'i mynediad i natur




Lleoliad canolog gwych a chysylltiadau da



Mynediad da i gyfleusterau megis siopau, cymorth meddygol a gweithgareddau

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Plymouth yr hoffent ei newid?





| | |
|---|---|
| A | Mwy o gyfleusterau hamdden, yn enwedig y pwll nofio **(9.09%)** |
| B | Mwy o bresenoldeb yr Heddlu - taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau a gyrru peryglus **(21.81%)** |
| C | Mwy o addysg i bobl ifanc am ymddygiadau diogel **(5.45%)** |
| D | Diogelu ein mannau agored, priffyrdd a llwybrau rhag sbwriel, baw cŵn a thipio anghyfreithlon **(25.45%)** |
| E | Moderneiddio a gwella Canol y Dref, denu mewnfuddsoddiad a chefnogi busnesau **(12.72%)** |
| F | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus, yn benodol y gwasanaeth bws **(10.90%)** |
| G | Hyrwyddo straeon cadarnhaol am Ferthyr Tudful **(5.45%)** |
| H | Mwy o weithgareddau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd **(12.72%)** |
| I | Adolygu taliadau parcio **(5.45%)** |
| J | Mwy o gyllid ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol **(7.27%)** |
| K | Gwrando ar bobl leol a chyfathrebu mewn modd amserol gan gynnig cyfleoedd iddynt gymryd rhan **(3.63%)** |
| L | Helpu pobl i ymdopi â'r argyfwng costau byw er mwyn helpu i atal ei effaith, (e.e.) risg gynyddol o ddigartrefedd **(3.63%)** |

## DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL

Dyma'r materion allweddol oedd trigolion Ward **Plymouth** am eu newid ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| Diogelu ein mannau agored, priffyrdd a llwybrau rhag sbwriel, baw cŵn a thipio anghyfreithlon | Mwy o bresenoldeb yr Heddlu - mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau a gyrru'n beryglus |
|---|---|
| • "Rhowch drefn ar y sbwriel a'r baw cŵn sydd i'w gweld ymhobman – mae'n gallu bod yn hunllef pan fyddwch chi'n mynd allan am dro".<br>• "Peidiwch ag adeiladu ar fannau gwyrdd. Gwnewch bob parc yn gyfartal gan fod ansawdd y parciau plant ym Merthyr yn ymdebygu i loteri cod post".<br>• "(Mae angen) mwy o barciau a digwyddiadau tebyg i'r rhai yn Aberdâr lle nad ydyn nhw'n codi ffortiwn".<br>• "Roeddwn i'n mynd i ddweud y dylai dynion y biniau godi sbwriel sy'n cael ei ollwng ganddyn nhw, ond fe esboniodd ffrind i mi faint o dai oedd yn rhaid iddyn nhw wasanaethu o fewn diwrnod, ac fe sylweddolais fy mod i wedi ymateb yn rhy lym o lawer!".<br>• "Rwy'n byw ar un o lwybrau'r Daith Taf ond dwi ddim yn teimlo'n ddiogel yn cerdded ar ei hyd yn ystod y nos gan nad oes digon o oleuadau".<br>• "Dim digon o finiau baw cŵn ar Daith Taf. Mae angen rhoi llawer o sylw i gynnal a chadw parciau lleol".<br>• "Fel perchennog ci, rwy'n gwybod bod angen mwy o finiau cŵn arnom".<br>• "Rhowch stop ar ddatblygiadau pellach ar ein mannau gwyrdd". | • "Mae angen mwy o bresenoldeb yr Heddlu yn y pentrefi. Efallai y dylent ymweld ag ysgolion – y cynradd, yr uwchradd a'r Coleg lleol, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o beryglon cyffuriau".<br>• "Yn ddiamau, gall Merthyr fod yn arw, ac rydyn ni'n clywed llawer o straeon am y ffordd y mae digwyddiadau'n gwneud bywyd yn anodd i bobl. Un o bynciau llosg y dydd yw'r jantwyr sy'n peri bod mynd allan ar y ffyrdd yn beryglus – mae hyn eisoes wedi arwain at broblemau, ond ychydig iawn o dystiolaeth a welwn o unrhyw beth yn cael ei wneud yn ei gylch. Mae problemau hefyd gyda rhai pobl ifanc yn mynd cam yn rhy bell – taflu cerrig neu wyau a stwff arall at geir – mae hyn yn wirion iawn ac yn hynod beryglus, felly mae angen i hyn newid trwy wneud safiad a gweithredu ynghylch y mater".<br>• "Rwy'n gweld diod a chyffuriau yn broblem fawr i Ferthyr – a gall hyn arwain at drafferthion ar strydoedd yr ardal rwy'n byw ynddi (yn aml mae dadleuon a llawer o geir yn mynd 'yn ôl ac ymlaen' wrth i bobl ddelio mewn cyffuriau)".<br>• "Maint yr ymddygiad gwrthgymdeithasol: y rebels rasio, y cyffuriau sy'n peri cymaint o sbwriel – nid yw'n ymddangos bod gan bobl falchder yn eu cymunedau mwyach".<br>• "Mae angen atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r rebels rasio. Does dim heddlu yn yr ardal - am beth ydyn ni'n talu nhw, dy'n ni byth yn eu gweld nhw. Efallai y dylen nhw rasio'u ceir y tu allan i orsaf yr heddlu!!!"<br>• "Pe bawn i'n nhw, byddwn i'n edrych i fuddsoddi yng Nghanol y Dref. Weithiau, mae cerdded yn y dref yn gallu bod yn brofiad brawychus iawn. Ni fydd fy mam-gu yn mynd yno mwyach oherwydd ei bod yn ofni y bydd rhywun yn dechrau dadl neu ffeit". |

## Beth oedd ymatebwyr yn Plymouth yn teimlo bod angen i Arweinwyr ei glywed?




| | |
|---|---|
| **A** | Gwrando mwy ar bobl, eu cynnwys yn y broses gynllunio a gwneud penderfyniadau **(23.63%)** |
| **B** | Helpu pobl i ymdopi â'r argyfwng costau byw **(12.72%)** |
| **C** | Sicrhau bod mesurau tawelu traffig priodol a chroesfannau mwy diogel ar gael i gerddwyr **(3.63%)** |
| **D** | Gwella cyfleusterau hamdden ac ailagor y pwll nofio **(5.45%)** |
| **E** | Gofalu am ein safleoedd treftadaeth **(1.81%)** |
| **F** | Mynd i'r afael â sbwriel, baw cŵn a thipio anghyfreithlon; a buddsoddi mwy yn ein parciau **(12.72%)** |
| **G** | Moderneiddio a hyrwyddo Canol y Dref drwy ddigwyddiadau sy'n cefnogi busnesau lleol ac yn denu mewnfuddsoddiad **(12.72%)** |
| **H** | Gwella deilliannau addysgol a datblygu mwy o gyfleusterau ieuenctid **(10.90%)** |
| **I** | Mynd i'r afael â throseddau (gan gynnwys gyrru'n beryglus; ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau casineb) **(10.90%)** |
| **J** | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig gyda'r nos **(5.45%)** |
| **K** | Cefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cymorth anabledd **(7.27%)** |

Dyma'r materion allweddol oedd trigolion Ward **Plymouth** am eu hamlygu i'r Arweinwyr ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:


| Gwrando ar bobl yn fwy astud, eu cynnwys yn y broses gynllunio a gwneud penderfyniadau | Mwy o fuddsoddiad mewn parciau; mynd i'r afael â sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw ci |
|---|---|
| • "Pobl Merthyr Tudful – mae'r rhai gafodd eu geni a'u magu yma wedi gweld llawer o newidiadau heb gael eu clywed efallai".<br>• "Rwy'n meddwl bod angen i reolwyr ymgynghori â phreswylwyr ond nid y rhai â'r llais cryfaf ar gyfryngau cymdeithasol. Mae rhai'n anfoddog i siarad allan hyd nes y daw rhywun i'w stepen drws".<br>• "Rwy'n meddwl pe baen nhw'n siarad mwy gyda phobl Merthyr, byddai ganddynt well syniad o'r hyn sydd angen ei wneud i wella pethau".<br>• "Mae gan bobl y dref syniadau ac awgrymiadau gwych ar gyfer gwella Merthyr. Dylen nhw wrando arnyn nhw". | • "Mae'r problemau rydyn ni'n eu cael gyda sbwriel ac yn arbennig tipio anghyfreithlon yn felltith go iawn; ond wn i ddim a yw'r argyfwng costau byw yn gwaethygu hyn – ddim yn siŵr a fyddai pobl y Cyngor wedi meddwl am hyn?".<br>• "Rwy'n meddwl y dylen ni wneud mwy o ymdrech i atal pobl rhag dympio a thaflu sbwriel ymhobman. Roeddwn i allan am dro y diwrnod o'r blaen ac fe basiais i tua 50 o bapurau lapio McDonalds – mae hyn yn difetha ein cefn gwlad prydferth".<br>• "Dylai pobl sydd â chŵn godi baw eu hanifeiliaid – mae peidio â gwneud hynny'n beth ffiaidd. Ni all y cŵn wneud hynny eu hunain. Aeth mam yn |

| | |
|---|---|
| • "Pe bai yna fwy i ddangos eich bod yn gwrando ar bobl, ni fyddech yn cael amser mor galed". | wallgo pan syrthiais ar faw ci a dweud na allwn i fynd i chwarae pêl-droed eto. Ond rwy'i eisiau parhau â phêl-droed, felly rwy'n meddwl y dylen nhw gael rhywun i lanhau'r baw ci oddi ar y caeau er mwyn i ni allu chwarae". |
| **Helpu pobl sy'n pryderu am yr argyfwng costau byw** | **Moderneiddio a hyrwyddo Canol y Dref trwy ddigwyddiadau sy'n cefnogi busnesau lleol ac yn denu mewnfuddsoddiad** |
| • "Dwi'n ei chael hi'n anodd gweld ffordd allan o hyn – dwi'n pryderu na fydda i'n gallu fforddio cynnal fy morgais ac eisoes rwy'i wedi torri nôl ar drydan, nwy, bwyd, dillad ac ati. Hoffwn petai arweinwyr yn ei gwneud hi'n llawer cliriach i bobl pa gymorth sydd ar gael a ble y gallant fynd i gael y cymorth sydd ei wir angen arnynt".<br>• "Mae arian yn dynn iawn, a dydy pobl ddim yn ymdopi'n dda ond nid eu bai nhw yw hynny. Byddwn yn awgrymu bod y gwleidyddion mewn grym yn meddwl am ffyrdd o helpu pobl yn fwy, gan ddweud wrthynt am sut i gael grantiau a phethau fydd yn eu helpu i oroesi'r storm. Roeddent o gwmpas yng nghyfnod y coronafeirws, ond mae'n ymddangos eu bod bellach wedi diflannu oddi ar wyneb y ddaear".<br>• "Mae angen mwy o gefnogaeth ar fusnesau i aros yn agored ac adeiladu ar enw da Merthyr fel tre arloesol. Mae angen ichi helpu banciau bwyd a hyrwyddo gerddi cymunedol ym mhob pentref – mae angen adeiladu cymunedau ar gyfer pawb".<br>• "Rwy'n meddwl bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i bobl ar incwm is gan ei bod gymaint anoddach inni gael dau ben llinyn ynghyd". | • "Pe bawn i'n nhw, byddwn i'n edrych i fuddsoddi yng Nghanol y Dref. Weithiau, mae cerdded yno'n gallu bod yn brofiad brawychus iawn. Nid yw fy mam-gu yn mynd yno mwyach oherwydd ei bod hi'n ofni y gwnaiff rhywun ddechrau dadl neu ffeit".<br>• "Pan ddes i nôl i Ferthyr, penderfynais ddechrau fy musnes bach fy hun ac roedd y gefnogaeth a gefais gan y Cyngor yn wych – efallai y byddai hyrwyddo hyn hyd yn oed yn fwy, yn gam positif i bobl leol (er rwy'n sylwi bod Cayman yn cynnig mwy o wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, felly mae ei gefnogaeth yn cyrraedd y bobl o'r diwedd)".<br>• "Mae Merthyr yn prysur ddod yn dref ddiffaith gyda gormod o siopau bwyd brys, siopau punt a siopau elusen".<br>• "Mae mwy i Ferthyr na phobl oedrannus a phlant/pobl yn eu harddegau. Nid yw trwsio parciau yn mynd i drwsio'r dref. Mae angen mwy ar yr ystod oedran 25-50 fel eu bod yn defnyddio'r dref i gymdeithasu gan roi arian yn ôl ym mhocedi pobl. Nid Costa neu Greggs arall  sydd ei angen ond mwy o help ar fusnesau annibynnol i oroesi yn y dref." |

# DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL




Dywedodd plant a phobl ifanc (0-24 oed) eu bod am i'r Cyngor:

|  |  |  |
|---|---|---|
| Darparu meysydd chwarae a gweithgareddau gwell o ran safon a nifer i blant a phobl ifanc | Moderneiddio Canol y Dref a chael siopau gwell, a chefnogi busnesau lleol | Glanhau sbwriel a baw cŵn, a dweud wrth bobl beth mae'r Cyngor yn ei wneud ar gyfer Newid Hinsawdd |




Dywedodd pobl o oedran gweithio (25-54 oed) eu bod am i'r Cyngor:


|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| Darparu presenoldeb Heddlu mwy gweladwy yn ein cymunedau; a mynd i'r afael â chyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | Gwrando'n fwy astud ar y gymuned a chynnwys pobl cyn i benderfyniadau gael eu gwneud | Rhoi mwy o gefnogaeth i iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cymorth i rai ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol | Darparu cyngor, arweiniad a chymorth ymarferol ynghylch ymdopi â'r argyfwng costau byw | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus fel gall pobl fynd i'r gwaith ac yn ôl |



Dywedodd pobl hŷn (55+ oed) eu bod am i'r Cyngor:


|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| Gwella gwasanaethau bws lleol yn enwedig gyda'r hwyr | Darparu presenoldeb Heddlu mwy gweladwy yn ein cymunedau; a mynd i'r afael â chyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | Rhoi mwy o gefnogaeth i iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cymorth i rai ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol | Gweithio'n rhagweithiol i atal llifogydd | Darparu cyngor, arweiniad a chymorth ymarferol ynghylch ymdopi â'r argyfwng costau byw |

## Ymgysylltu â phobl o: Ward y Dref




Wrth ddadansoddi data'r ymatebion, dywedodd **105** o'r ymatebwyr eu bod yn byw yn Ward y Dref [9]

Wrth ddadansoddi oedran yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr Arolwg o'r Ward hon, canfuwyd y canlynol:




Sut mae'r gyfradd ymateb hon yn cymharu â'r gyfradd ymateb gyfartalog a gyfrifwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol?

| | **0-15** | **16-24** | **25-34** | **35-44** | **45-54** | **55-64** | **65-74** | **75-84** | **85+** | Gwell ganddynt beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Dref | 5 | 3 | 9 | 29 | **18** | 24 | 11 | 4 | 2 | |
| Cyfartaledd a gofnodwyd | 3.72 | 2.9 | 8.18 | 13.63 | **11.63** | 10.09 | 5.9 | 2 | 0.5 | - |

Gan edrych ar y cyfraddau ymateb yn ôl grŵp oedran, gallwn gymharu'r rhain yn erbyn y gyfradd ymateb gyffredinol i nodi unrhyw feysydd y gellid eu datblygu ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu'r dyfodol. Yr ymatebion a dderbyniwyd gan Ward y Dref oedd yr uchaf o blith yr holl wardiau; disgwyliwyd hyn gan mai Ward y Dref yw'r un fwyaf poblog. Yn seiliedig ar y data a gadarnhawyd, roedd ymateb y preswylwyr **35-44** a **55-64 oed bron ddwywaith y gyfradd gyfartalog** a gofnodwyd ar draws holl wardiau'r Fwrdeistref Sirol.

[9] Ni ellir cymhwyso'r nifer hwn yn llawn gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis peidio â nodi ym mha ward yr oeddent yn byw wrth gwblhau eu hymateb.

.

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward y Dref eu bod yn hoffi orau am Ferthyr Tudful?

Wrth ddadansoddi’r adborth a gafwyd gan drigolion Ward **y Dref**, gellid nodi cwpl o osodiadau allweddol yn eu hadborth a oedd yn dangos yr hyn roeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned. Dyma nhw:



Y bobl ac ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol



Ei chefn gwlad a’i hardaloedd gwyrdd, ei mannau agored a’i mynediad i natur




Mynediad da i gyfleusterau megis siopau, cymorth meddygol a gweithgareddau



Cyfoeth Merthyr Tudful o ran ei hanes, treftadaeth a diwylliant

### Beth ddywedodd ymatebwyr Ward y Dref yr hoffent ei newid?





| | |
|---|---|
| A | Moderneiddio/adfywio Canol y Dref; denu mewnfuddsoddiad a swyddi sy’n talu’n well **(28.57%)** |
| B | Darparu cymorth i fynd i’r afael â thlodi a’r argyfwng costau byw **(4.76%)** |
| C | Datblygu a hyrwyddo gweithgaredd ym maes twristiaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol **(4.76%)** |
| D | Diogelu ein hamgylchedd rhag sbwriel, tipio anghyfreithlon ac ati a chynnal mannau gwyrdd/llwybrau i sicrhau eu bod yn hygyrch **(22.85%)** |
| E | Gwella iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys cymorth ynghylch ADY/anableddau a mynediad at feddygon teulu a deintyddion **(5.71%)** |
| F | Gwella gwasanaethau hamdden ac ailagor y prif bwll nofio **(14.28%)** |
| G | Ailddefnyddio eiddo gwag er mwyn helpu i ddiwallu’r angen am dai **(1.9%)** |
| H | Mynd i’r afael â phroblemau parcio a thraffig **(8.57%)** |
| I | Gwella'r gwasanaeth bws lleol i ddiwallu anghenion y cyhoedd, a datblygu llwybrau Teithio Llesol **(10.47%)** |
| J | Mynd i’r afael â throseddau (e.e.) ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyrru peryglus a chyffuriau, a gwneud plismona yn llawer mwy gweladwy **(18%)** |
| K | Gwella addysg ac addysgu mewn ysgolion **(1%)** |

Dyma'r materion allweddol oedd trigolion Ward **y Dref** am eu newid ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| **Moderneiddio ac adfywio Canol y Dref, denu mewnfuddsoddiad a swyddi sy'n talu'n well** | **Diogelu ein hamgylchedd rhag sbwriel a thipio anghyfreithlon ac ati, a chynnal ein mannau gwyrdd/llwybrau i sicrhau eu bod yn hygyrch** |
|---|---|
| • "Mae gan Ferthyr lwyth o siopau a llefydd i fwyta ac yfed ond mae hynny'n golygu bod llawer o'r swyddi yn cynnig cyflogau is (oni bai eich bod yn gweithio i'r ysbyty neu'r Cyngor neu leoedd felly). Byddwn yn edrych i weld sut y gallem ddenu busnesau i'r ardal sy'n fwy o faint ac yn talu cyflogau gwell".<br>• "Cyflwyno mwy o ddarparwyr gweithgynhyrchu a gwasanaethau i greu mwy o swyddi a gwell rhagolygon."<br>• "Mae adeiladau o natur hanesyddol, yn enwedig yng Nghanol y Dref, yn cael eu gadael i bydru ac maen nhw o bosib yn beryglus, ac wrth gwrs fe ellid defnyddio'r adeiladau hynny ar gyfer gweithgareddau amrywiol/ mentrau newydd".<br>• "Hoffwn weld gwell siopau yng Nghanol y Dref, (e.e.) Primark, Waterstones, WH Smiths. (Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod gennym ni ddigonedd o siopau ewinedd, siopau trin gwallt, siopau fêpio, siopau betio a siopau elusen sy'n adlewyrchu'n wael ar ardal Merthyr)". | • "Nid yw maint y sbwriel ar draws y Fwrdeistref yn dderbyniol ac mae'n peri embaras i ymwelwyr".<br>• "(Mae angen) rhywle ym Merthyr i'n plant a'n hwyrion ddysgu sut i nofio - mae'n sgil bywyd. Dylid agor pwll Rhydycar; rwy'n siomedig iawn gyda'r oedi - mae pobl yn teithio i siroedd eraill i nofio ac i ddysgu".<br>• "Maint y sbwriel ac ymddangosiad cyffredinol rhai ardaloedd/adeiladau/ ffyrdd/tir comin. Y teimlad cyffredinol yw nad yw'r pethau hyn yn cael eu cynnal a'u cadw – mae hyd yn oed yr arwyddion yn edrych yn hen/wedi treulio ac yn aml yn fudr iawn".<br>• "Rwy'n poeni am yr amgylchedd a newid hinsawdd a hoffwn wneud yn siŵr ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i atal y problemau rhag gwaethygu. Mae cyfathrebu yn allweddol i hyn, ac mae'r Cyngor yn cynnig llawer o wasanaethau a allai helpu i arwain y ffordd - trwy roi gwybod i bobl, efallai y byddwn yn cynyddu nifer y bobl sy'n ymddwyn yn synhwyrol". |

| **Mynd i'r afael â throseddau (e.e.) ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyrru peryglus ac ati, a gwneud plismona yn llawer mwy gweladwy** |
|---|
| • "Er fy mod yn caru Merthyr, mae canol y dref braidd yn arw ac ar brydiau, ychydig yn fygythiol. Gall fod yn frawychus iawn, felly nid wyf yn mynd i'r dref yn aml y dyddiau hyn; yn hytrach, rwy'n archebu pethau ar-lein. Byddai'n well gennyf wario arian gyda busnesau lleol, a phe bai modd byddwn yn ceisio mynd i'r afael ag ymddygiad rhai pobl benodol".<br>• "Mae angen mwy o blismona ar gyfer y strydoedd. Dewch â heddweision yn ôl i'n strydoedd. Mae angen mwy o blismona ar y bechgyn sy'n rasio'u ceir liw nos. Maen nhw wrthi'n ddi-baid nos ar ôl nos. Mater o amser oedd hi cyn i ddamwain ddigwydd ac erbyn hyn, yn anffodus, mae dynes wedi colli ei bywyd".<br>• "Dylid mynd i'r afael â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n digwydd yn rhai o lecynnau'r Fwrdeistref, a'r rhai sy'n goryrru'u ceir ar hyd yr A470 ac yn ardaloedd y tramffyrdd. Mae hyn yn gwneud i drigolion deimlo'n anniogel ac yn ychwanegu at argraffiadau negyddol am Ferthyr". |

## Beth oedd ymatebwyr y Dref yn teimlo bod angen i Arweinwyr ei glywed?




| | |
|---|---|
| **A** | Mynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon, diogelu mannau gwyrdd agored a helpu pobl i ymdopi â'r newid yn yr hinsawdd **(16.19%)** |
| **B** | Gwella'r cyfleusterau hamdden ac ailagor y prif bwll nofio **(6.66%)** |
| **C** | Gwella gwasanaethau bws a thrên **(4.76%)** |
| **D** | Gwella iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig Gwasanaethau Plant **(6.66%)** |
| **E** | Mynd i'r afael â throseddau (e.e.) ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyrru'n beryglus, a dosbarthu mwy o negeseuon er diogelwch y gymuned **(13.33%)** |
| **F** | Moderneiddio/adfywio Canol y Dref fel bod cynnydd yn nifer a chyflogau'r swyddi **(8.57%)** |
| **G** | Gwrando ar bobl a'u cynnwys yn helaethach; cyfathrebu negeseuon clir gan ddefnyddio gwahanol ddulliau - nid rhai digidol yn unig **(26.66%)** |
| **H** | Hyrwyddo agweddau cadarnhaol am Ferthyr yn fwy effeithiol er mwyn mynd i'r afael ag argraffiadau negyddol a chynyddu diddordeb yr ymwelwyr **(8.57%)** |
| **I** | Rhoi cyngor a chymorth ymarferol i breswylwyr i'w helpu i ymdopi ag effeithiau'r argyfwng costau byw **(6.66%)** |

| Gwrando ar bobl a'u cynnwys yn helaethach, cyfathrebu negeseuon clir gan ddefnyddio gwahanol ddulliau – nid rhai digidol yn unig | Mynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon, amddiffyn ein mannau gwyrdd agored a helpu pobl ynghylch newid hinsawdd |
|---|---|
| • "Rwy'n meddwl bod yna lawer o bobl leol sydd â syniadau da ac sy'n eithaf arloesol. Nid ydym bob amser yn teimlo y gallwn ni fynd at y Cyngor i drafod syniadau ac weithiau, teimlwn yn gryf nad yw pobl yn gwrando arnon ni (er y bu rhai eithriadau fel yr ysgol yng Nghefn). Pe gallai'r Cyngor gynnal cyfarfodydd yn Neuadd y Dref, neu weithdai dwys, gallai hynny helpu i chwalu'r rhwystrau (canfyddedig)".<br>• "Mae angen cyfathrebu negeseuon allweddol mewn Saesneg clir fel bod y mwyafrif o bobl yn deall. Hefyd, mae gan Gynghorwyr ran i'w chwarae i gyfathrebu rhwng y bobl a'r Cyngor - yn fy ward i, dydw i ddim yn gweld llawer o dystiolaeth fod hyn yn cael ei wneud".<br>• "Mae angen mecanwaith i sicrhau bod llais y trigolion yn cael ei glywed yn gliriach gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Nid oes llawer o bobl yn ymgysylltu'n wleidyddol a dydyn nhw ddim yn siarad â chynghorwyr | • "(Rwy'n meddwl y dylen nhw glywed) bod angen gwario mwy o adnoddau ar yr amgylchedd a mynd i'r afael â newid hinsawdd gan ei fod yn allweddol i daclo *pob* mater".<br>• "(Byddwn yn awgrymu) bod angen mwy o godwyr sbwriel a dirwyon uwch am ollwng sbwriel".<br>• "Byddwn yn awgrymu bod y Cyngor yn meddwl mwy am yr amgylchedd wrth edrych ar BOB datblygiad newydd".<br>• "Rwy'n caru'r mannau gwyrdd sydd gennym a byddwn wrth fy modd yn gweld hwb i gynaladwyedd trwy ddarparu mwy o fannau i dyfu pethau".<br>• "Gwnewch yn siŵr nad yw'r llwybrau wedi gordyfu a'u bod yn rhwydd i'w troedio".<br>• "Mae chwaraeon ac amser yn yr awyr agored mor bwysig; hoffwn weld mannau allanol yn cael eu gwarchod lle bynnag y bo modd". |

| | |
|---|---|
| lleol. Mae angen i breswylwyr gael dulliau hyblyg i gyflwyno'u hadborth - dulliau heblaw rhai ar-lein gan fod llawer o bobl yn brin o hyfedredd, offer a chysylltedd yn y maes hwnnw. Dylid hefyd rhoi adborth fel bod trigolion yn gwybod bod yr ALI wedi gwrando".<br>• "Rwy'n awgrymu y dylwn ni barhau i wrando ar ein cymunedau. Drwy wrando'n astud ar bobl sy'n cael eu heffeithio gan yr heriau yr ydym yn ceisio eu rheoli, gallwn gael enghreifftiau go iawn o'r hyn sydd wedi gweithio/heb weithio a thrwy hynny, gallwn ddatblygu atebion ystyrlon. Byddwn hefyd yn awgrymu na ellir diystyru'r pŵer a ddaw o bobl yn gweithio gyda'i gilydd. Pan fydd prosiect yn cael ei gefnogi gan ymdrech gydweithredol, mae'n creu'r nerth i'n helpu ni i daclo'r heriau mawr yn fwy effeithiol - edrychwch ar sut y gwnaethon ni ymateb i Covid!" | • "Mae angen i ni ofalu am ein hamgylchedd yn well gan mai dim ond un cyfle sydd gennym. Dylid dirwyo'r bobl hynny sy'n dympio sbwriel a'u henwi a'u cywilyddio".<br>• "Rwy'n poeni am yr amgylchedd a newid hinsawdd a hoffwn wneud yn siŵr ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i atal y problemau rhag gwaethygu. Mae cyfathrebu yn allweddol i hyn, ac mae'r Cyngor yn cynnig llawer o wasanaethau a allai helpu i arwain y ffordd. Trwy roi gwybod i bobl, efallai y byddwn yn cynyddu nifer y bobl sy'n ymddwyn yn synhwyrol". |
| **Mynd i'r afael â throseddau (e.e.) ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyrru peryglus ac ati, a gwneud plismona yn llawer mwy gweladwy** | |
| • "Mae angen gwneud mwy i reoli'r gyrru peryglus o gwmpas Merthyr. Rwy'n byw yn y Maerdy ac mae'r sŵn o Rydycar / Tesco / yr A470 / y slipffordd / Twyn Bryn y tu hwnt i reswm. Rwy'i hefyd yn gweld goryrru a symudiadau peryglus yn ddyddiol.<br>• "Mae angen mwy o blismona ar gyfer y strydoedd. Dewch â heddweision yn ôl i'n strydoedd. Mae angen mwy o blismona ar y bechgyn sy'n rasio'u ceir liw nos. Maen nhw wrthi'n ddi-baid nos ar ôl nos. Mater o amser oedd hi cyn i ddamwain ddigwydd ac erbyn hyn, yn anffodus, mae dynes wedi colli ei bywyd".<br>• "Mae angen plismona, TCC a mesurau cyflymder ym Merthyr ac ar hyd ei chyrion am fod y safleoedd hyn yn cael eu defnyddio fel traciau rasio yn ystod y nos".<br>• "Dylid mynd i'r afael â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n digwydd yn rhai o lecynnau'r Fwrdeistref, a'r rhai sy'n goryrru'u ceir ar hyd yr A470 ac yn ardaloedd y tramffyrdd. Mae hyn yn gwneud i drigolion deimlo'n anniogel ac yn ychwanegu at argraffiadau negyddol am Ferthyr".<br>• "Mae angen adfywio Canol y Dref a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol!".<br>• "Mae angen cynyddu plismona – mae angen i bobl deimlo'n ddiogel". | |

# DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL




Dywedodd plant a phobl ifanc (0-24 oed) eu bod am i'r Cyngor:

|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| Cadw Merthyr yn lân – llai o sbwriel a thipio anghyfreithlon | Mwy o gyfleusterau i blant, pobl ifanc a theuluoedd | Gwella'r parcio (yn y dref a'r ardaloedd preswyl) | Gwella diogelwch cymunedol (e.e.) taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG); plismona mwy gweladwy | Mwy o fynediad at gwnsela a chymorth |





Dywedodd pobl o oedran gweithio (25-54 oed) eu bod am i'r Cyngor:

|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| Gwella' gwasanaethau hamdden ac ailagor y pwll nofio | Gwella diogelwch cymunedol (e.e.) taclo YGG; plismona mwy gweladwy | Moderneiddio Canol y Dref; denu siopau gwell a chefnogi busnesau lleol | Cyfleusterau chwaraeon mwy cynhwysol | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus – yn enwedig y gwasanaeth bws |



Dywedodd pobl hŷn (55+ oed) eu bod am i'r Cyngor:


|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| Gwella trafnidiaeth gyhoeddus – yn enwedig y gwasanaeth bws | Moderneiddio Canol y Dref; cefnogi busnesau lleol a denu mwy o fuddsoddiad | Gwella diogelwch cymunedol (e.e.) taclo YGG; plismona mwy gweladwy | Helpu pobl i ymdopi ag effeithiau'r argyfwng costau byw | Gwella gwasanaethau hamdden ac ailagor y pwll nofio |

## Ymgysylltu â phobl o: Ward Treharris




Wrth ddadansoddi data'r ymatebion, dywedodd **51** o'r ymatebwyr eu bod yn byw yn Ward Treharris [10]

Wrth ddadansoddi oedran yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr Arolwg o'r Ward hon, canfuwyd y canlynol:




Sut mae'r gyfradd ymateb hon yn cymharu â'r gyfradd ymateb gyfartalog a gyfrifwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol?

| | 0-15 | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75-84 | 85+ | Gwell ganddynt beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Treharris | 3 | 2 | 5 | 10 | 13 | 4 | 8 | 6 | 0 | 0 |
| Cyfartaledd a gofnodwyd | 3.72 | 2.9 | 8.18 | 13.63 | 11.63 | 10.09 | 5.9 | 2 | 0.5 | - |

Gan edrych ar y cyfraddau ymateb yn ôl grŵp oedran, gallwn gymharu'r rhain yn erbyn y gyfradd ymateb gyffredinol i nodi unrhyw feysydd y gellid eu datblygu ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu'r dyfodol. Yn seiliedig ar y data a gadarnhawyd ar gyfer **Ward Treharris,** yr ystodau oedran â'r gyfradd ymateb uchaf oedd ymhlith trigolion **65–74 oed** a **75–84 oed** – y ddau gyfradd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd a gofnodwyd ar draws holl wardiau'r Fwrdeistref Sirol.

[10] Ni ellir cymhwyso'r nifer hwn yn llawn gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis peidio â nodi ym mha ward yr oeddent yn byw wrth gwblhau eu hymateb.

.

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Treharris eu bod yn hoffi orau am Ferthyr Tudful?

Wrth ddadansoddi'r adborth a gafwyd gan drigolion Ward **Treharris**, gellid nodi cwpl o osodiadau allweddol yn eu hadborth a oedd yn dangos yr hyn roeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned. Dyma nhw:



Y bobl ac ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol



Ei chefn gwlad a'i hardaloedd gwyrdd, ei mannau agored a'i mynediad i natur




Lleoliad canolog gwych a chysylltiadau da




Mynediad da i gyfleusterau megis siopau, cymorth meddygol a gweithgareddau

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Treharris yr hoffent ei newid?





| | |
|---|---|
| A | Gwella cyfleusterau cymunedol yn Nhreharris (e.e.) siopau, banciau, Swyddfa'r Post ac ati **(13.72%)** |
| B | Moderneiddio Canol y Dref, denu mewnfuddsoddiad a chefnogi busnesau lleol **(33.33%)** |
| C | Gwella seilwaith teithio a thrafnidiaeth gyhoeddus **(15.68%)** |
| D | Plismona mwy gweladwy i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau ac ati **(13.72%)** |
| E | Darparu cymorth i bobl fregus gan gynnwys gwasanaethau i blant a phobl ifanc **(5.88%)** |
| F | Mynd i'r afael â materion parcio a thraffig **(7.84%)** |
| G | Cadw'r strydoedd yn lân a chynnal y llwybrau cerdded fel eu bod yn rhydd o sbwriel, baw cŵn a thipio anghyfreithlon **(9.80%)** |
| H | Hyrwyddo pethau cadarnhaol am Ferthyr – cyfathrebu trwy wahanol ddulliau (nid dim ond rhai digidol) **(5.88%)** |
| I | Darparu cymorth ynghylch yr argyfwng costau byw **(5.88%)** |
| J | Diogelu ein hanes a'n treftadaeth **(9.80%)** |

Dyma'r materion allweddol oedd trigolion Ward **Treharris** am eu newid ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| **Moderneiddio Canol ein Tref, denu mewnfuddsoddiad a chefnogi busnesau lleol** | **Gwella cyfleusterau yn Nhreharris (e.e.) siopau, banciau, Swyddfa'r Post ac ati** |
|---|---|
| • "(Mae angen i chi wneud rhywbeth am) y siopau sydd wedi dirywio – mae rhai'n wag ac wedi'u hesgeuluso ac yn gwneud i'r ardal edrych yn dlawd ac fel petai wedi mynd â'i phen iddo".<br>• "Mae angen rhagor o fuddsoddiad ym mhen isaf y cwm er mwyn i bobl ifanc gael mwy o opsiynau o ran lleoedd i fynd iddyn nhw a phethau i'w gwneud. Teimlaf fod yr holl arian yn cael ei wario ar ben uchaf y cwm".<br>• "(Mae angen inni) annog siopau brand i ddod i Ganol y Dref".<br>• "Mae angen gwell siopau yng Nghanol y Dref – nid oes gan bawb gar i fynd lan i'r Parc Manwerthu".<br>• "Roedd arfer bod lle ym Merthyr i logi cadeiriau olwyn a sgwteri y tu ôl i Orsaf yr Heddlu. Rwy'n meddwl bod angen hynny eto fel bod Canol y Dref yn hylaw i bawb."<br>• "Dylid annog mwy o fusnesau i agor. Dylid helpu busnesau i symud i siopau yn y stryd fawr". | • "Mae angen mwy o gyfleusterau ar bobl yn ardal Treharris, Mynwent y Crynwyr ac ati gan gynnwys siopau da a mwy o bethau ar gyfer y plant. Hefyd, mae angen gwella Parc a Phwll Treharris".<br>• "Rwy'n meddwl y gellid gwneud mwy i annog pobl i aros a gwario'n lleol. Cadwch yr arian yn y dref".<br>• "Y parcio - ac mae angen mwy o barciau plant! Yn bendant, mae angen gwella cyfleusterau, yn enwedig yn Ward Treharris".<br>• "(Mae angen) mwy o weithgareddau ym mhen isaf y cwm".<br>• "Mae angen mynediad haws i fanciau o amgylch y Sir yn y trefi a'r pentrefi lleol. Hoffwn gael Swyddfa Bost yn Nhreharris".<br>• "Byddwn i'n gosod Swyddfa Bost yn Nhreharris". |
| **Mynd i'r afael â throseddau (e.e.) cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ati a chael plismona mwy gweladwy** | **Gwella seilwaith traffig a thrafnidiaeth gyhoeddus** |
| • "Mae angen mynd i'r afael â phroblem defnyddio cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghanol y Dref ac mewn mannau cyhoeddus".<br>• "Rwy'n byw yn rhan ddeheuol Merthyr felly dwi ddim yn mynd i'r dref gymaint â hynny; ond ar yr achlysuron pan wyf wedi bod yno, fe deimlais ei bod hi braidd yn 'arw' - mae yna lawer o bobl sy'n yfed liw dydd ac maen nhw'n gallu bod yn swnllyd ac yn eithaf annymunol. Fel arfer, dwi'n mynd i Bonty lle dwi ddim yn cael fy ansetlo".<br>• "Dylid annog siopau brand i Ganol y Dref. Dylid cynyddu presenoldeb yr heddlu yno fel bod pobl yn teimlo'n fwy diogel".<br>• "(Gwnewch rywbeth am) bobl yn cymryd cyffuriau ar y strydoedd". | • "Mae angen gwella trafnidiaeth gyhoeddus yn sylweddol".<br>• "Y cynllun: (h.y.) dylai'r Orsaf Fysiau fod wedi'i hadeiladu ar Farmfoods fel y gellid symud yr Orsaf Drenau yno a thynnu'r bont dros Stryd y Llys a lledu'r ffordd. Gellid pedestreiddio'r ardal rhwng yr hen Orsaf Fysiau a'r afon, gan gynnwys y darn o'r rhodfa, gan ddenu bwytai a busnesau bwtîc yno. Cysylltiadau trafnidiaeth: mae bysiau a threnau Treharris yn gadael ar yr un pryd".<br>• "Mae angen rhoi trefn ar yr hen wasanaeth bws".<br>• "Byddai gwell trafnidiaeth gyhoeddus yn helpu pobl i symud o gwmpas".<br>• "Mae angen gwell trafnidiaeth i mewn ac allan o Ferthyr – mae'n ymddangos yn annibynadwy iawn ar hyn o bryd". |

## Beth oedd ymatebwyr yn Nhreharris yn teimlo bod angen i Arweinwyr ei glywed?




| | |
|---|---|
| **A** | Gwella seilwaith/ansawdd trafnidiaeth gyhoeddus a phriffyrdd **(21.56%)** |
| **B** | Gwella cyfleusterau yn Nhreharris (e.e.) parciau, banciau, Swyddfa'r Post **(13.72%)** |
| **C** | Cyfathrebu'n amlach ac yn gliriach a gwrando ar bobl leol; rhoi mwy o gyfle iddynt gymryd rhan **(19.60%)** |
| **D** | Gwneud i Ferthyr Tudful deimlo'n fwy diogel (yn enwedig Canol y Dref) **(3.92%)** |
| **E** | Moderneiddio Canol y Dref; gweithio gyda busnesau a denu mewnfuddsoddiad sy'n creu swyddi â chyflogau gwell **(13.72%)** |
| **F** | Mynd i'r afael â materion tai lleol **(1.96%)** |
| **G** | Sicrhau strydoedd glanach a mynd i'r afael â sbwriel a baw cŵn **(5.88%)** |
| **H** | Gwneud y pethau sylfaenol yn dda: addysg, hyfforddiant, gofal cymdeithasol ac ati **(1.96%)** |
| **I** | Gwella gwasanaethau hamdden a dwyn yr Ymddiriedolaeth i gyfrif **(7.84%)** |
| **J** | Defnyddio adnoddau'r Cyngor yn fwy cyfartal ar draws y Fwrdeistref Sirol gyfan **(5.88%)** |
| **K** | Diogelu a hyrwyddo ein treftadaeth **(3.92%)** |

Dyma'r materion allweddol oedd trigolion Ward **Treharris** am eu hamlygu i'r Arweinwyr ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| Gwella seilwaith/ansawdd trafnidiaeth gyhoeddus a phriffyrdd | Cyfathrebu'n amlach (ac yn gliriach) a gwrando ar bobl leol gan roi mwy o gyfleoedd iddynt gymryd rhan |
|---|---|
| • "Mae angen gwella trafnidiaeth. Bws stryd efallai i Fynwent y Crynwyr?".<br>• "Mae'r gwasanaethau bws i bobl yn wardiau isaf y cwm yn achosi llawer o straen ac mae llawer o bobl yn wynebu colli eu swyddi oherwydd amserlenni'r bysiau".<br>• "I bobl hŷn fel fi, rydyn ni'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus ac ni allwn oddef sefyll o gwmpas yn aros dros awr am fws, felly mae rhoi trefn ar hynny yn bwysig".<br>• "(Dylent glywed) fod pobl, ar y cyfan, yn digalonni oherwydd y diffyg trafnidiaeth".<br>• "Mae angen gwella trafnidiaeth gyhoeddus yn sylweddol". | • "Mae angen iddynt wrando ar bobl Merthyr. Byddwch yn weladwy, cyfathrebwch â'r bobl. Ystyriwch yr hyn sy'n cael ei awgrymu am welliannau. Gweithredwch".<br>• "Mae angen iddyn nhw gael y pethau sylfaenol yn iawn. Swyddi sy'n talu'n dda, a hyfforddiant fel y gall y bobl sy'n byw yma wneud cais amdanyn nhw. Gofal meddygol da. Y pethau sylfaenol yn unig".<br>• "Rwy'n meddwl bod y Cyngor yn cyfathrebu'n weddol aml ond mae'r rhan fwyaf o'r hyn a gyhoeddir yn newyddion da. Mae hynny'n iawn ond rwy'n meddwl pe baech chi'n sôn am rai o'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddech yn cael cefnogaeth o leoedd na fyddech yn eu disgwyl".<br>• "Mae angen ichi fod yn gliriach wrth rannu negeseuon â phobl oherwydd weithiau, nid wy'n deall yr hyn ydych yn ei ddweud". |

| Gwella cyfleusterau yn Nhreharris | Moderneiddio Canol y Dref; gweithio gyda busnesau a denu mewnfuddsoddiad sy'n creu swyddi â chyflogau gwell |
|---|---|
| • "Mae angen gwella trafnidiaeth. Bws stryd efallai i Fynwent y Crynwyr? Byddai Parc Treharris yn lle hyfryd pe bai'r Pwll a'r Parc yn cael sylw a chyllid. Byddai canolfan siopa leol yn golygu na fyddai angen i ni ddibynnu ar y cludiant annibynadwy".<br>• "Mae yna lawer i fod yn falch ohono ym Merthyr, ond mae angen mwy o fuddsoddiad i hybu'r economi leol".<br>• "Pe bai unrhyw ffordd i agor mwy o fanciau ym Merthyr, byddai hynny'n ddefnyddiol. Does gennym ni ddim hyd yn oed Swyddfa Bost yn Nhreharris ac os nad oes gennych chi gyfrifiadur, gall hynny fod yn hunllef wrth dalu biliau".<br>• "Mae angen buddsoddiad mewn parciau lleol. Mae angen buddsoddiad ar Barc Treharris".<br>• "Pe bai unrhyw fodd i'r Cyngor weithio mwy gyda busnesau bach lleol a busnesau cymdeithasol, byddai hynny o gymorth iddyn nhw ac efallai'n helpu i gadw arian yn y dref".<br>• "Mae angen Swyddfa Bost ar bobl Treharris. Hefyd, rwy'n meddwl bod angen i'r meddygfeydd ailagor i gleifion". | • "Rwy'n meddwl eu bod yn colli cyfleoedd i wneud Merthyr yn lle mae pobl eisiau dod iddo - os nad yw pobl yn teimlo'n ddiogel, yna ni wnân nhw ddod. Efallai y dylid gweithio gyda'r Heddlu i ganfod beth i'w wneud os ydych chi'n teimlo dan fygythiad, a ble y gallwch fynd iddyn nhw i gadw'n ddiogel".<br>• "Mae yna lawer i fod yn falch ohono ym Merthyr, ond mae angen mwy o fuddsoddiad i hybu'r economi leol".<br>• "Pe baech yn gallu cael trefn ar gyfleusterau parcio'r dref a maes parcio Tesco (er efallai nad y Cyngor sy'n gyfrifol am hwnnw), byddai pobl yn dod i'r dref yn amlach".<br>• "Gostyngwch y gost o rentu siopau i annog ffyniant yng Nghanol y Dref. Cyflwynwch ganolfan groeso er mwyn annog pobl i ymweld â'r ardal".<br>• "Buddsoddwch!!! Mae siopau lleol yn gwneud i'r ardal fod yn lle deniadol i fyw ynddi. Mae'r modd y glanheir y strydoedd lleol yn wych".<br>• "Dylid annog siopau brand i Ganol y Dref. Mae angen mwy o bresenoldeb yr heddlu yng Nghanol y Dref fel bod pobl yn teimlo'n fwy diogel. Mae angen mwy o westai a lletyau gwely-a-brecwast yn yr ardal". |

# DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL




Dywedodd plant a phobl ifanc (0-24 oed) eu bod am i'r Cyngor:

| | | | |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| Gwella gwasanaethau hamdden ac ailagor y pwll nofio | Gwneud i Ganol y Dref deimlo'n fwy diogel (e.e.) mynd i'r afael â phroblemau cyffuriau | Buddsoddi yn Nhreharris i wneud yn siŵr fod yna bethau i bobl ifanc eu gwneud | Darparu mwy o gyfleusterau lleol i bobl Treharris |




Dywedodd pobl o oedran gweithio (25-54 oed) eu bod am i'r Cyngor:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| Moderneiddio Canol y Dref a gweithio gyda busnesau lleol | Gwella gwasanaethau hamdden ac ailagor y pwll nofio | Gwneud i Ganol y Dref deimlo'n fwy diogel (e.e.) mynd i'r afael â phroblemau cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | Gwella gwasanaethau bws lleol yn enwedig gyda'r hwyr ac ar benwythnosau | Cyfathrebu'n gliriach gyda thrigolion ac mewn modd amserol |



Dywedodd pobl hŷn (55+ oed) eu bod am i'r Cyngor:


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| Darparu mwy o gyfleusterau lleol i bobl Treharris | Hyrwyddo treftadaeth a diwylliant Merthyr Tudful | Diogelu ein hamgylchedd, a mynd i'r afael â sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn | Gwella gwasanaethau bws lleol yn enwedig gyda'r hwyr ac ar benwythnosau | Darparu cyngor, arweiniad a chymorth ymarferol ynghylch ymdopi â'r argyfwng costau byw |

## Ymgysylltu â phobl o: Ward Faenor




Wrth ddadansoddi data'r ymatebion, dywedodd **42** o'r ymatebwyr eu bod yn byw yn Ward Faenor [11]

Wrth ddadansoddi oedran yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr Arolwg o'r Ward hon, canfuwyd y canlynol:




Sut mae'r gyfradd ymateb hon yn cymharu â'r gyfradd ymateb gyfartalog a gyfrifwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol?

| | 0-15 | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75-84 | 85+ | Gwell ganddynt beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Faenor | 3 | 2 | 4 | 7 | 10 | 11 | 4 | 1 | 0 | 0 |
| Cyfartaledd a gofnodwyd | 3.72 | 2.9 | 8.18 | 13.63 | 11.63 | 10.09 | 5.9 | 2 | 0.5 | - |

Gan edrych ar y cyfraddau ymateb yn ôl grŵp oedran, gallwn gymharu'r rhain yn erbyn y gyfradd ymateb gyffredinol i nodi unrhyw feysydd y gellid eu datblygu ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu'r dyfodol. Yn seiliedig ar y data a gadarnhawyd ar gyfer **Ward Faenor,** roedd y lefelau ymateb ar draws pob grŵp oedran yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd a gofnodwyd ar draws holl wardiau'r Fwrdeistref Sirol.

[11] Ni ellir cymhwyso'r nifer hwn yn llawn gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis peidio â nodi ym mha ward yr oeddent yn byw wrth gwblhau eu hymateb.

.

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Faenor eu bod yn hoffi orau am Ferthyr Tudful?

Wrth ddadansoddi’r adborth a gafwyd gan drigolion Ward **Faenor**, gellid nodi cwpl o osodiadau allweddol yn eu hadborth a oedd yn dangos yr hyn roeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned. Dyma nhw:



Y bobl ac ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol



Ei chefn gwlad a’i hardaloedd gwyrdd, ei mannau agored a’i mynediad i natur




Ei hanes a’i threftadaeth gyfoethog



Mynediad da i gyfleusterau megis siopau, cymorth meddygol a gweithgareddau

## Beth ddywedodd ymatebwyr yn Ward Faenor yr hoffent ei newid?





| | |
|---|---|
| A | Mynd i’r afael â’r canfyddiad negyddol o Ferthyr Tudful **(4.76%)** |
| B | Diogelu a hyrwyddo hanes a threftadaeth Merthyr Tudful **(9.52%)** |
| C | Buddsoddi/moderneiddio Canol y Dref; denu mewnfuddsoddiad a gweithio gyda busnesau lleol **(26.19%)** |
| D | Mynd i’r afael â throseddau (e.e.) ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau ac ati, yn enwedig yng Nghanol y Dref **(21.42%)** |
| E | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus **(21.42%)** |
| F | Gwella cyfleusterau hamdden ac ailagor y pwll nofio **(19.04%)** |
| G | Gwell mynediad at ofal plant a gwella deilliannau addysgol **(2.38%)** |
| H | Diogelu ein hamgylchedd rhag datblygiad a mynd i'r afael â sbwriel, baw cŵn a thipio anghyfreithlon **(21.42%)** |
| I | Darparu cymorth fel y gall pobl ymdopi ag effeithiau’r argyfwng costau byw **(4.76%)** |
| J | Cyfleu negeseuon allweddol a chynlluniau’r Cyngor yn well, gyda mwy o gyswllt gan Gynghorwyr mewn wardiau **(11.90%)** |
| K | Mynd i’r afael â materion tai lleol **(4.76%)** |
| L | Gwella cysylltedd materol a digidol **(4.76%)** |

## DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL

Dyma'r materion allweddol oedd trigolion Ward **Faenor** am eu newid ynghyd â rhai o sylwadau'r ymatebwyr:

| **Buddsoddi yng nghanol y dref a'i moderneiddio, denu mewnfuddsoddiad a gweithio gyda busnesau lleol** | **Mynd i'r afael â throseddau (e.e.) ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau ac ati, yn enwedig yng Nghanol y Dref** |
|---|---|
| • Hyd y cofiaf i, mae Canol Tref Merthyr yn fwy digalon nawr nag erioed o'r blaen. Mae'n drist gweld cyflwr canol ein tref, gyda chynifer o siopau gwag, posteri anghyfreithlon, llefydd wedi cau ac ati. Gellid/dylid rhoi cymhellion i ddenu busnesau newydd. Mae Primark ym Merthyr yn gaffaeliad amlwg - perffaith ar gyfer denu ymwelwyr".<br>• "Rwy'n deall y byddai cael mwy o siopau a gwella'r gwasanaeth bws yn dod â phobl i'r dref. Ond er eu bod wedi adeiladu gorsaf fysiau newydd, mae'r gwasanaeth bws ei hun wedi dirywio yn enwedig ar gyfer yr henoed. Er nad ydynt yn mynd i'r dref yn aml, maen nhw'n gorfod aros yn hir am fws adref".<br>• "Mae angen i Ganol y Dref ddenu mwy o siopau a busnesau".<br>• "Roedd Canol y Dref arfer bod yn ganolbwynt i Ferthyr ond bellach, nid yw'n teimlo'n ddiogel gyda phobl hŷn yn agored i gael eu targedu liw dydd". | • "Ymddygiad gwrthgymdeithasol (o bob oed) – grwpiau mawr yn ymgasglu yn ein mannau prydferth, yn cynnau tanau, yn gadael sbwriel ac yn fandaleiddio pethau sy'n eiddo i'r gymuned (e.e. Parc Charlie yng Nghefn), ac yn ddiweddar yn difrodi ceir yng Nghefn".<br>• "Mynnwch fod yr heddlu yn gwneud eu gwaith ac yn atal gyrru peryglus, rasio ceir, beiciau yn gyrru'n wyllt yn y baw, ymddygiad gwrthgymdeithasol".<br>• "Mae'r rebels rasio yn codi ofn ar yrwyr eraill yn hwyr y nos (ar hyd yr A470 ac yn Rhydycar)".<br>• "Mae angen taclo'r sefyllfa parthed cam-drin cyffuriau/alcohol. Ar adegau, mae'n frawychus cerdded o amgylch Canol y Dref – mae'n ymddangos bod y diwylliant hwn wedi cymryd drosodd. Mae hyn yn annymunol i bobl leol ac ymwelwyr â'r dref fel ei gilydd. Ceisiwch wneud y ganolfan siopa yn ardal sy'n gwahardd ysmygu – fe lwyddwyd i wneud hynny yng Nghwmbrân". |
| **Gwella trafnidiaeth gyhoeddus** | **Diogelu ein hamgylchedd rhag datblygiad a mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, taflu sbwriel a baw ci** |
| • "Mae angen gwella'r gwasanaeth bws o gryn dipyn".<br>• "Mae angen darparu mwy o drafnidiaeth a gweithgareddau ar gyfer y bobl".<br>• "Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn wendid MAWR - ry'n ni'n byw yng Nghefn a dydyn ni ddim yn gyrru ac er bod yna wasanaeth bws mae'n stopio'n gynnar iawn. O ganlyniad, mae'n rhaid cerdded adref o'r dref weithiau, ac mae hynny'n draul ar ein coesau yn enwedig yn ein hoedran ni (mae tacsis allan ohoni gan na allwn i mo'u fforddio). Byddwn i'n newid y sefyllfa honno".<br>• "Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn wael iawn – llai o wasanaethau nag yr oedd cyn Covid, a phan fo bysiau'n rhedeg maen nhw'n fynych yn anaml. Hefyd, mae teithio ar fws neu drên yn aml mor ddrud â defnyddio'r car, os nad yn ddrutach. Mae angen mwy o bwyntiau gwefru trydan i annog pobl i fynd yn wyrdd". | • "Dylid (mynd i'r afael â) maint y sbwriel/tipio anghyfreithlon, diffyg biniau sbwriel/gwastraff cŵn".<br>• "Dylid clirio'r ffyrdd a'r rhodfeydd o sbwriel/nodwyddau/gwydr".<br>• "Ni ddylai datblygiad arfaethedig Dŵr Cymru ym Mhont-sarn fynd yn ei flaen gan y bydd yn difetha'r mannau gwyrdd prin hynny sydd ar ôl!".<br>• "Mae gennym ni amgylchoedd hardd ond mae'r gwaith ar yr A465 wedi gwneud bywyd yn anoddach i bobl yn ein hardal ni, felly byddwn i eisiau newid y sefyllfa honno".<br>• "(Mae angen taclo'r) lefelau o sbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae timau sbwriel y Cyngor a gwirfoddolwyr yn gwneud gwaith gwych ond ni allant ddal i fyny. Mae angen mwy o finiau, a mwy o finiau baw". |

**Beth oedd ymatebwyr yn Faenor yn teimlo bod angen i Arweinwyr ei glywed?**




| | |
|---|---|
| A | Gweithio gyda chymunedau a'u cynnwys, a gwrando ar eu hadborth; cyfathrebu’n gliriach **(33.33%)** |
| B | Gwella’r gwasanaeth bws **(9.52%)** |
| C | Gwella gwasanaethau hamdden a dwyn yr Ymddiriedolaeth i gyfrif **(4.76%)** |
| D | Mynd i'r afael â throseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyffuriau, yn enwedig yng Nghanol y Dref, a gwneud plismona yn fwy gweladwy **(7.14%)** |
| E | Moderneiddio/adfywio Canol y Dref, sicrhau mwy o fuddsoddiad a gwaith i gefnogi busnesau **(21.42%)** |
| F | Gofalu am yr amgylchedd; canolbwyntio mwy ar fioamrywiaeth a diogelu ein mannau gwyrdd rhag datblygiadau adeiladu **(7.14%)** |
| G | Helpu pobl i reoli effaith yr argyfwng costau byw **(9.52%)** |
| H | Canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau craidd y Cyngor yn effeithiol, (e.e.) addysg a gwasanaethau cymdeithasol i wella deilliannau **(4.76%)** |
| I | Gwella trefniadau parcio **(7.14%)** |

Dyma’r materion allweddol oedd trigolion Ward **Faenor** am eu hamlygu i’r Arweinwyr ynghyd â rhai o sylwadau’r ymatebwyr:

| **Gweithio gyda chymunedau a’u cynnwys, a gwrando ar eu hadborth; cyfathrebu’n gliriach** | **Moderneiddio/adfywio Canol y Dref, sicrhau mwy o fuddsoddiad a gwaith i gefnogi busnesau** |
|---|---|
| • “Mae barn pobl yn cyfrif. Defnyddiwch boblogaeth fel ffynhonnell gwybodaeth, siaradwch â’r rhai sydd â gwybodaeth/profiad mewn maes penodol”.<br>• “Cyfathrebwch yn well gyda phobl - byddwch yn glir am yr hyn y gallwch ac na allwch ei wneud - peidiwch â dweud eich bod yn mynd i wneud rhywbeth a newid eich meddwl a dweud na fyddwch chi’n ei wneud e”.<br>• “Rwy’n meddwl ei fod yn heriol ceisio cyfathrebu’r hyn sy’n digwydd yn y Cyngor oherwydd eu bod weithiau’n ei adael yn hwyr yn y dydd cyn cyhoeddi pethau. Pe gallent roi gwybod i ni yn gynt, efallai y bydd mwy o bobl yn cymryd rhan.”<br>• Gwrandewch ar bobl y dref. Rhowch stop ar ddatblygiadau di-nod – rydyn ni’n haeddu gwell na hynny”. | • Mae Merthyr bellach yn dref ddiffaith ac mae angen iddi gael ei hailddatblygu’n sylweddol. Rwy’n ystyried symud i dref wahanol ar ôl byw yma am 48 mlynedd oherwydd diffyg bwytai/tafarndai/siopau ac ati”.<br>• “Mae angen cadw ein treftadaeth ddiwydiannol cyn ei bod hi’n rhy hwyr ac mae’n rhaid edrych y tu hwnt i Gastell Cyfarthfa. Byddai hynny yn ein helpu ni i fod yn gyrchfan i dwristiaid”.<br>• “Mae angen mwy o heddlu yn bresennol yng nghanol y dref i annog pobl i beidio â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau. Dylid gostwng ardrethi a thaliadau parcio ceir yng Nghanol y Dref er mwyn denu busnesau newydd a chynyddu nifer yr ymwelwyr”.<br>• “Mae angen rhoi ffocws difrifol ar gefnogi a datblygu Canol y Dref”. |

# DATBLYGU'R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL





**Dywedodd plant a phobl ifanc (0-24 oed) eu bod am i'r Cyngor:**

|  |  |  |
|---|---|---|
| **Cyfathrebu â phobl yn gynharach; gwrando ar eu hadborth a'u syniadau** | **Gofalu am yr amgylchedd; clirio sbwriel a baw cŵn; a diogelu ein mannau gwyrdd** | **Gwella'r gwasanaethau bws lleol, yn enwedig gyda'r hwyr ac ar benwythnosau** |




**Dywedodd pobl o oedran gweithio (25-54 oed) eu bod am i'r Cyngor:**

|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella/moderneiddio Canol y Dref; a gweithio gyda busnesau i sicrhau mewnfuddsoddiad** | **Cyfathrebu â phobl yn gynharach; gwrando ar eu hadborth a'u syniadau** | **Gofalu am yr amgylchedd a'i lanhau, a diogelu ein mannau gwyrdd rhag datblygiad** | **Mynd i'r afael â materion diogelwch yn y gymuned (e.e.) ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau, gyrru peryglus** | **Darparu cyngor, arweiniad a chymorth ymarferol ynghylch ymdopi â'r argyfwng costau byw** |



**Dywedodd pobl hŷn (55+ oed) eu bod am i'r Cyngor:**

|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella'r gwasanaethau bws lleol, yn enwedig gyda'r hwyr ac ar benwythnosau** | **Gwella/moderneiddio Canol y Dref; a gweithio gyda busnesau i sicrhau mewnfuddsoddiad** | **Mynd i'r afael â materion diogelwch yn y gymuned (e.e.) ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau, gyrru peryglus** | **Gwella gwasanaethau hamdden, ailagor y pwll nofio, a mynnu bod yr Ymddiriedolaeth Hamdden yn atebol** | **Cyfathrebu â phobl yn gynharach; gwrando ar eu hadborth a'u syniadau** |

## Ymatebion Eraill:

Er nad oedden ni’n gallu dadansoddi gweddill y data a gasglwyd fesul ward, roedd modd inni nodi themâu allweddol yr ymatebion ac fe’u rhestrir isod.

Fel y crybwyllwyd ar ddechrau’r ddogfen hon, roedd nifer o ymatebwyr wedi dewis peidio ag enwi’u ward wrth gwblhau’r Arolwg ac wedi ateb y cwestiynau eraill yn rhannol.

## Beth ddywedodd yr ymatebwyr na enwodd eu Ward eu bod yn ei hoffi orau am Ferthyr Tudful?



Y bobl ac ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol



Ei chefn gwlad a’i hardaloedd gwyrdd, ei mannau agored, a’i mynediad i natur




Ei hanes a’i threftadaeth gyfoethog



Mynediad da i gyfleusterau megis siopau, cymorth meddygol a gweithgareddau

### Beth ddywedodd ymatebwyr yr hoffent ei newid?





| | |
|---|---|
| A | Gwella dibynadwyedd a chost y gwasanaethau bws **(9.42%)** |
| B | Meithrin ymdeimlad o falchder yn y dref a hyrwyddo nodweddion cadarnhaol Merthyr Tudful **(1.66%)** |
| C | Moderneiddio Canol y Dref sy’n ei chael hi’n anodd, gan ddenu mewnfuddsoddiad a rhoi cyfle i fusnesau bach **(4.43%)** |
| D | Mwy o blismona i daclo troseddau (yn enwedig ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghanol y Dref) **(1.93%)** |
| E | Mynd i’r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon yng nghefn gwlad a’r mannau gwyrdd **(1.66%)** |
| F | Canolbwyntio ar wella cyfleusterau hamdden i helpu iechyd a llesiant pobl **(1.66%)** |
| G | Taliadau parcio is a delio â materion traffig a chynnal a chadw ffyrdd **(1.66%)** |
| H | Mwy o gefnogaeth i ysgolion lleol **(0.55%)** |
| I | Diogelu hanes a threftadaeth Merthyr Tudful **(0.55%)** |
| J | Mynd i’r afael ag adeiladau peryglus a’i dychwelyd i ddefnydd cymunedol **(0.55%)** |

Dyma'r materion allweddol oedd ymatebwyr am eu newid ynghyd â rhai o'u sylwadau:

| **Gwella dibynadwyedd a chost y gwasanaethau bws** | **Moderneiddio Canol y Dref sy'n ei chael hi'n anodd, gan ddenu mewnfuddsoddiad a chefnogi busnesau bach** |
|---|---|
| • "Rhoi trefn ar y gwasanaeth bws - dwi'n colli dechrau shifftiau o hyd ac mae'n costio arian i mi".<br>• "(Mae angen) bysiau mwy rheolaidd".<br>• "Fel rhywun nad yw'n gyrru, mae gwir angen gwella nid yn unig dibynadwyedd y drafnidiaeth gyhoeddus ond hefyd ei hargaeledd (gyda'r hwyr) - ni allaf fforddio cymryd tacsis ac ar adegau rwy'n teimlo fy mod i'n colli cyfleoedd am na allaf gyrraedd y mannau lle maen nhw'n cael eu cynnal".<br>• "Rhowch drefn ar y bysiau melltigedig - mae mynd i'r gwaith ac yn ôl yn hunllef weithiau".<br>• "Mae angen i chi wella'r gwasanaeth bws, mae'r orsaf newydd yn hyfryd, ond mae'r gwasanaeth ei hun yn ofnadwy".<br>• "(Mae angen) bysiau ar ôl 6pm, os gwelwch yn dda!". | • "Mae Canol y Dref mewn ychydig o drafferth ac mae pawb yn beio'r Parc Manwerthu. Dwi ddim yn credu bod hynny'n wir fodd bynnag. Mae angen cymryd mwy o amser i godi safonau yng Nghanol y Dref i'w gwneud yn lle y bydd pobl eisiau ymweld ag ef. Mae yna alw mawr ar gyfer yr economi fwyd ar hyn o bryd ac mae angen archwilio hynny. Bydd pobl yn teithio o bell am y math hyn o beth. Mae Casnewydd wedi cymryd camau breision yn y datblygiadau dan sylw ac wedi trawsnewid ardaloedd a oedd gynt yn marw".<br>• "(Mae angen) mwy o siopau, bwytai, atyniadau twristaidd ac ati".<br>• "Dylid gwella cyfleoedd cyflogaeth, denu mwy o fusnesau a siopau yn enwedig i Ganol y Dref sydd heb lawer i'w gynnig ar hyn o bryd".<br>• "Mae angen plismona Canol y Dref. Mae llawer o bobl yno'n creu ofn trwy gamddefnyddio alcohol a chyffuriau".<br>• "Mae'n ymddangos bod y Stryd Fawr yn marw. Gallai ardrethi is ar siopau ysbarduno Canol y Dref - gallem weld busnesau bach newydd yn cael cyfle i oroesi a thrwy hynny, gellir ailsefydlu'r stryd fawr". |

# DATBLYGU’R CYNLLUN LLESIANT CORFFORAETHOL

## Beth oedd ymatebwyr yn teimlo bod angen i’r Arweinwyr ei glywed?




| | |
|---|---|
| **A** | Gwrando mwy ar bobl leol a gweithio gyda nhw **(2.77%)** |
| **B** | Darparu cymorth i ymdopi ag effeithiau’r argyfwng costau byw **(1.10%)** |
| **C** | Mynd i’r afael â’r heriau sy’n ymwneud â gwasanaethau hamdden i gefnogi cymunedau i barhau’n iach **(0.55%)** |
| **D** | Cadw Merthyr Tudful yn lân, annog mwy o bobl i ymweld â’r dref a gwario yno, er mwyn hybu’r economi leol (**1.66%)** |
| **E** | Adeiladu a datblygu'r economi leol - edrych ar fabwysiadu economi fwy cylchol i leihau gwastraff **(0.55%)** |
| **F** | Canolbwyntio ar wneud Merthyr yn fwy diogel, er mwyn adlewyrchu’r gwir sefyllfa yn hytrach na’i enw drwg anhaeddiannol **(0.83%)** |

Dyma’r materion allweddol oedd y trigolion am eu hamlygu i’r Arweinwyr ynghyd â rhai o’u sylwadau:

| **Gwrando’n fwy astud ar bobl leol a gweithio gyda nhw** | **Cadw Merthyr Tudful yn lân, annog mwy o bobl i ymweld â’r dref a gwario yno, er mwyn hybu’r economi leol** |
|---|---|
| • “Gwrandewch fwy ar adborth gan bobl leol, peidiwch â’i ddiystyru”.<br>• “Gwrandewch fwy ar bobl - mae gennym ni wybodaeth dda ond mae fel pe bai’n cael ei hanwybyddu”.<br>• “Mae angen i bobl Merthyr fynegi eu dymuniadau ynglŷn â’r hyn fyddai’n gweithio’n dda yn y dref”.<br>• “Mae yna lawer o bobl leol a hoffai gymryd rhan heb wybod y ffordd o wneud hynny”.<br>• “Dylech gynnwys pobl leol yn fwy, a gwrando ar yr adborth y maen nhw’n ei roi i chi" | • “Bydd cadw Merthyr yn lân yn helpu i annog mwy o bobl i ymweld ac aros yma i wario’u harian yn yr economi leol”.<br>• “Dylech adeiladu a datblygu’r economi leol gan edrych ar fabwysiadu economi fwy cylchol i leihau gwastraff”.<br>• “Torrwch daliadau parcio i helpu masnachwyr yng Nghanol y Dref a hybu nifer yr ymwelwyr”.<br>• “Rhowch hwb i’r economi leol trwy ddenu mewnfuddsoddiad a chynnal digwyddiadau”.<br>• “Rhowch drefn ar Ganol y Dref gan ddenu siopau gwell a chyfleoedd i bobl weithio ynddynt.” |

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynghylch yr Arolwg hwn, cysylltwch â’r Tîm Polisi a Gwelliant: Policy&Improvement@merthyr.gov.uk